

**Cynorthwyo
Gofalwyr Ifanc
yn yr Ysgol:
Canllawiau
Cam-wrth-gam
ar gyfer Arweinwyr,
Athrawon a Staff
sydd ddim yn dysgu**

Fersiwn Cymru



Cynorthwyo Gofalwyr Ifanc yn yr Ysgol: Canllawiau Cam-wrth-gam ar gyfer Arweinwyr, Athrawon a Staff sydd ddim yn dysgu

Fersiwn Cymru



Cydnabyddiaeth

Mae Ymddiriedolaeth Gofalwyr Cymru am ddiolch i'r ysgolion a'r gwasanaethau gofalwyr fu'n rhan o'r cynllun peilot i hyrwyddo rhaglen Gofalwyr Ifanc yn yr Ysgol, yn arbennig:

- Ysgol Dyffryn Ogwen, Gwynedd
- Ysgol Bryn Elian, Conwy
- Ysgol Uwchradd Rhyl, Sir Ddinbych
- Ysgol Emmanuel, Sir Ddinbych
- Aberdaugleddau, Sir Benfro
- Yr Esgob Hedley, Merthyr Tudful
- St Gwladys, Caerffili
- Ysgol Gyfun Cwm Rhymni, Caerffili
- Ymddiriedolaeth y Gofalwyr, De Ddwyrain Cymru

Mae Ymddiriedolaeth Gofalwyr Cymru hefyd am ddiolch i Dr Brett Pugh, Cynhogydd Arbenigol, cyn-gyfarwyddwr Safonau Ysgolion a'r Gweithlu Llywodraeth Cymru, am ei egni a'i ymrwymiad wrth ddatblygu'r gwaith hwn.

Mae'r fersiwn hon ar gyfer Cymru o'r Canllawiau Cam-wrth-gam wedi cael ei adolygu gan: Gill Winter, Rheolwr Partneriaeth Gofalwyr, Ymddiriedolaeth Gofalwyr Cymru
Kieron Rees, Uwch Reolwr Materion Allanol, Ymddiriedolaeth Gofalwyr Cymru

© Ymddiriedolaeth y Gofalwyr 2017. Lluniau drwy garedigrwydd Photofusionpictures.org ac Ymddiriedolaeth y Gofalwyr. Defnyddir modelau ar gyfer ein holl luniau llyfrgell.

Hoffem ddiolch yn arbennig i'r gwasanaethau gofalwyr ifanc a'r gofalwyr ifanc eu hunain sydd wedi cyfrannu eu straeon a'u dyfyniadau, sydd wedi seilio'r adnodd hwn mewn profiadau go iawn.

Cynorthwyo Gofalwyr Ifanc yn yr Ysgolion: Datblygwyd Canllawiau Cam-wrth-gam ar gyfer Arweinwyr, Athrawon a Staff sydd ddim yn dysgu fel rhan o raglen Gofalwyr Ifanc yn yr Ysgol, ar y cyd gan Ymddiriedolaeth y Gofalwyr a Chymdeithas y Plant, ac ariannwyd gan Ymddiriedolaeth y Frenhines a Chronfa'r Loteri Fawr.

Lluniwyd y Canllawiau Cam-wrth-gam gwreiddiol gan Emily Carter, Rheolwr Polisi a Datblygiad Ysgolion, Ymddiriedolaeth y Gofalwyr.

Ariannwyd y prosiect gan Ymddiriedolaeth y Frenhines, gan adeiladu ar egwyddorion a theclynnau o adnoddau blaenorol, Phelps, D, Leadbitter, H, Danni, M (2010) *Supporting Young Carers: A Resource for Schools*, (Ymddiriedolaeth y Dywysoges Frenhinol er Gofalwyr a Chymdeithas y Plant). Mae rhai o'r teclynnau sy'n gysylltiedig â'r canllawiau wedi cael eu cymryd neu eu haddasu o'r adnodd hwn.

Cedwir pob hawl: nid oes modd i'r Canllawiau Cam-wrth-gam hyn gael eu hailgynhyrchu, eu storio mewn system adalw, na'u trosglwyddo mewn unrhyw ffurf neu drwy unrhyw fodd, boed yn fecanyddol, drwy lungopïo, recordio, neu fel arall fel rhan o brosiectau ymchwil neu arolygon heb ganiatâd ysgrifenedig penodol gan Ymddiriedolaeth y Gofalwyr. Caiff ysgolion lawrlwytho'r teclynnau ar CD sydd ar gael gyda'r adnodd hwn a'u haddasu at ddefnydd cymunedau'r ysgolion hynny'n unig. Ni ellir gwneud llungopïau i'w dosbarthu i fudiadau eraill.

Cynnwys

Rhagarweiniad i Gynorthwyo Gofalwyr Ifanc yn yr Ysgol: Canllawiau Cam-wrth-gam ar gyfer Arweinwyr, Athrawon a Staff sydd ddim yn dysgu	2
Cam 1: Meithrin dealltwriaeth ynglŷn â gofalwyr ifanc	12
Cam 2: Adolygu darpariaeth eich ysgol ar gyfer gofalwyr ifanc	22
Cam 3: Sicrhau ymrwymiad gan arweinwyr yr ysgol	25
Cam 4: Cyflwyno Arweinydd Gweithredol ar gyfer Gofalwyr Ifanc yn yr Ysgol	29
Cam 5: Cydnabod gofalwyr ifanc ym mhrif ddogfennau'r ysgol	32
Cam 6: Sefydlu systemau i ganfod pwy sy'n ofalwyr ifanc, eu hasesu a rhoi cymorth iddynt	36
Cam 7: Codi ymwybyddiaeth ymhlith staff yr ysgol ynglŷn â gofalwyr ifanc	42
Cam 8: Codi ymwybyddiaeth ymhlith disgyblion a theuluoedd ynglŷn â gofalwyr ifanc	47
Cam 9: Canfod, asesu a chynnig cymorth i ofalwyr ifanc a'u teuluoedd	51
Cam 10: Rhannu arferion da ag eraill	55
Adnoddau Ychwanegol	58

**Rhagarweiniad
i Gynorthwyo
Gofalwyr Ifanc
yn yr Ysgol:
Canllawiau
Cam-wrth-gam ar
gyfer Arweinwyr,
Athrawon a Staff
sydd ddim yn dysgu**



Croeso i Gynorthwyo Gofalwyr Ifanc yn yr Ysgol: Canllawiau Cam-wrth-gam ar gyfer Arweinwyr, Athrawon a Staff sydd ddim yn dysgu.

Mae adnodd hwn wedi cael ei gynllunio gydag athrawon a staff ysgol i'w gwneud mor hawdd â phosib i ganfod gofalwyr ifanc mewn ysgolion a chynnig cymorth iddynt. Fe'i bwriadwyd at ddefnydd mewn ysgolion uwchradd a chynradd yng Nghymru.

“ Rydym am sicrhau bod gan bobl ifanc i gyd gyfle cyfartal i gael addysg ardderchog. Mae gan rai o'n dysgwyr heriau ychwanegol sy'n gofyn am gymorth gofalus, ac mae hyn yn arbennig o wir yn achos plant a phobl ifanc sydd â chyfrifoldebau gofalu ”

Kirsty Williams,
Ysgrifennydd y Cabinet dros
Addysg, Llywodraeth Cymru

Pwy yw gofalwyr ifanc?

Gofalwr ifanc yw rhywun dan 18 oed sy'n darparu neu'n bwriadu darparu gofal i berson arall.

Gallai cymaint ag un o bob 12 o ddisgyblion ysgol yn y DU fod yn ofalwr ifanc.

Yn aml, mae'r plant hyn yn gofalu am berthnasau yn ddiarwybod i'w hathrawon, gan gael eu gadael ar ôl, heb fod y gwasanaethau cymorth yn ymwybodol o'u bodolaeth. Mae'r rôl ofalu maent yn ei gweithredu'n aml yn golygu bod ganddynt brofiadau a gofynion unigryw sy'n effeithio ar eu gallu i fwynhau eu hamser yn yr ysgol a chyrraedd eu llawn botensial.

Beth yw effeithiau posib gofalu ar gyrraedd a llesiant disgyblion?

Mae gofalwyr ifanc yn grŵp bregus a difreintiedig y cyfeirir atynt yn benodol yng Nghlanllawiau Arolygu Ysgolion Estyn (Estyn, 2016). Mae llawer o'r anawsterau sy'n wynebu'r bobl ifanc hyn, yn effeithio nid yn unig arny'n nhw, ond gallant hefyd effeithio ar ysgolion yn nhermau adroddiadau

arolygwyr a'r categorïau y gosodir hwy ynddynt.

Mae ymchwil yn dangos y canlynol:


- Mae 27% o ofalwyr ifanc (rhwng 11 a 15 oed) yn methu ysgol neu'n cael anawsterau addysgol (40% yn achos plant sy'n gofalu am berthynas sydd â phroblemau'n ymwneud â chyffuriau neu alcohol) (Dearden, C, Becker, S, 2004).
- Mae cyraeddiadau gofalwyr ifanc ar lefel TGAU yn arwyddocaol is - y gwahaniaeth rhwng naw C a naw D (Cymdeithas y Plant, 2013).
- Mae gofalwyr ifanc yn fwy tebygol na'r cyfartaledd cenedlaethol o beidio â bod mewn addysg, cyflogaeth neu hyfforddiant (NEET) rhwng 16 a 19 oed (Cymdeithas y Plant, 2013).
- Dywedodd chwarter gofalwyr ifanc eu bod wedi cael eu bwlio yn yr ysgol oherwydd eu rôl ofalu (Ymddiriedolaeth y Gofalwyr, 2013).

“ Mae canfod pwy sy'n ofalwyr yn gynnar yn golygu gwelliant mewn cyrhaeddiad a llesiant os yw'r cymorth cywir yn cael ei gynnig. ”

Arweinydd Gweithredol ar gyfer Gofalwyr Ifanc yn yr Ysgol

Beth mae Cynorthwyo Gofalwyr Ifanc yn yr Ysgol: Canllawiau Cam-wrthgam ar gyfer Arweinwyr, Athrawon a Staff sydd ddim yn dysgu, yn ei gynnig i'ch ysgol chi?

Mae llawer o ysgolion yn cynnig arfer ardderchog, gan wneud gwahaniaeth gwirioneddol i'r gofalwyr ifanc maent yn rhoi cymorth iddynt. Mae ysgolion eraill wedi dweud wrthym eu bod am sicrhau'r deilliannau ardderchog hyn, ond nad ydynt yn gwybod ble i ddechrau. Mae'r Canllawiau Cam-wrthgam yn gosod allan deg o gamau allweddol i wneud canfod a rhoi cymorth i ofalwyr ifanc mor hawdd â phosib:



“Roeddwn i wedi dechrau bod yn fwy agored gyda phobl yn yr ysgol, ond cefais fy mwlio ac roedd pobl yn gwneud hwyl am ben fy mam. Rydw i wedi symud ysgol nawr.”

Gofalwr ifanc

Fel yn achos agweddau eraill o fywyd ysgol, mae datblygiad cymorth effeithiol ar gyfer gofalwyr ifanc yn ddibynnol ar adolygu'r ddarpariaeth gyfredol yn rheolaidd, ynghyd â chanfod meysydd ar gyfer gwelliannau parhaus. Mae'r camau felly wedi cael eu gosod allan fel proses gylchol, y dylai ysgolion ymgymryd â hi gydol pob blwyddyn ysgol.

Mae'r Canllawiau Cam-wrth-gam felly'n cynnwys teclynnau, templedi ac arweiniad hanfodol ar gyfer:

- Ysgolion sydd wedi bod yn datblygu systemau ar gyfer canfod a rhoi cymorth i ofalwyr ifanc dros gyfnod o flynyddoedd - gan dynnu eich sylw at unrhyw fylchau yn eich darpariaeth, eich galluogi i wneud y gorau o'ch adnoddau a chreu'r effaith mwyaf yn sgil eich gwaith caled.
- Ysgolion sy'n datblygu neu'n dechrau datblygu eu darpariaeth ar gyfer gofalwyr ifanc - gan eich helpu i flaenoriaethu beth i'w wneud nesaf, mae'r adnodd hwn yn cynnwys teclyn ar gyfer pob cam, felly does dim angen i unrhyw ysgol gychwyn o'r dechrau.

Ei gwneud mor hawdd â phosib i ysgolion gynnig cefnogaeth i ofalwyr ifanc

Mae'r Canllawiau Cam-wrth-gam hyn wedi cael eu hysgrifennu ar y cyd ag athrawon a staff ysgol sy'n deall y pwysedd mae ysgolion yn ei wynebu wrth ddarparu'r ystod eang o ofynion a osodir arnynt. O ganlyniad i hyn, mae'r arweiniad hwn wedi cael ei gynllunio i fod mor hyblyg a defnyddiol â phosib. Ynghyd â phob cam, darperir y canlynol:

- Templedi ac enghreifftiau.
- Deunyddiau ar gyfer codi ymwybyddiaeth y staff.
- Adnoddau dysgu.
- Deunydd i'w osod ar hysbysfwrdd y disgyblion.

Canllawiau 'Sut i' ar gynnal cymorth effeithiol.

Mae'r teclynnau hyn i gyd ar gael ar-lein yn professionals.carers.org. Golyga hyn y gall ysgolion eu defnyddio a'u haddasu ar gyfer strwythur eu hysgol ac amgylchiadau lleol.



Cofiwch

Ni fydd angen i bob ysgol ddefnyddio'r holl declynnau sydd wedi'u cynnwys yma. Bydd o gymorth i rai ddewis yr adnoddau fydd yn helpu i wella'r cymorth maen nhw eisoes yn ei gynnig i ofalwyr ifanc a'u teuluoedd, tra bydd eraill am ddechrau adeiladu eu gweithgareddau dros gyfnod o flynyddoedd.

Ynglŷn ag Ymddiriedolaeth Gofalwyr Cymru

Mae Ymddiriedolaeth Gofalwyr Cymru'n rhan o Ymddiriedolaeth y Gofalwyr, elusen fawr ar gyfer, gydag ac am bobl sy'n gofalu. Rydym yn gweithio i wella cymorth, gwasanaethau a chydabyddiaeth i unrhyw un sy'n byw â'r heriau o ofalu, yn **ddi-dâl**, am aelod o'r teulu neu ffrind sy'n sâl, egwan, anabl neu sydd â phroblemau iechyd meddwl neu sy'n gaeth i sylweddau.

Gyda Phartneriaid Rhwydwaith Lleol, gallwn gynnig cymorth i ofalwyr yn eu cartrefi drwy ddarparu rhywun i ofalu yn eu lle. Hefyd cefnogaeth yn y gymuned ar ffurf gwybodaeth, cyngor, cefnogaeth emosiynol, help ymarferol a chyfleoedd i gael ambell seibiant maent yn ei haeddu. Rydym yn cynnig gwasanaethau arbenigol i'r rheiny sy'n gofalu am bobl o bob oedran a chyflwr, ynghyd ag ystod o weithgareddau grŵp a chefnogaeth wedi ei theilwra'n benodol i gwrdd ag anghenion unigol.

Mae ein gwasanaethau ar gyfer gofalwyr ifanc ar gael mewn cymunedau lleol drwy Bartneriaid Rhwydwaith â sicrwydd ansawdd. Yn ogystal â darparu cyngor ymarferol ac emosiynol, gwybodaeth a chefnogaeth, rydym yn gweithio gyda gofalwyr ifanc er mwyn cynnig seibiant iddynt o'u rôl gofalu a chyfle i fod yn blentyn unwaith eto.

Mae'r dystiolaeth rydyn ni'n ei chasglu o'r ddarpariaeth o wasanaethau'n ein galluogi i annog newid polisi, ar sail gwybodaeth uniongyrchol ynglŷn ag anghenion gofalwyr ifanc ar lefel leol a chenedlaethol. Mae ein gwaith ymgyrchu ac eiriolaeth yn ein galluogi i godi'r materion sy'n wynebu gofalwyr ifanc, ble bynnag mae'n creu'r effaith fwyaf gan newid eu bywydau er gwell. Rydym yn gweithio'n rheolaidd mewn partneriaeth â mudiadau eraill, gan gynnwys cyrff proffesiynol, Llywodraeth Cymru ac elusennau, er budd gofalwyr ifanc.

Ynglŷn â Chymdeithas y Plant

Mae Cymdeithas y Plant yn elusen genedlaethol sy'n cynnal gwasanaethau lleol er mwyn rhoi cymorth i blant a phobl ifanc sydd mewn peryg o gael eu trin yn annheg neu o gael eu niweidio, sy'n byw mewn gofal, neu sydd wedi cael eu hanfanteisio gan y systemau a fwriadwyd i'w hamddiffyn. Maent yn dod atom ni pan fyddant ar eu mwyaf bregus, pan fyddant wedi anobeithio, a phan na fydd ganddynt unrhyw le arall i fynd.

Yn wyneb argyfwng, byddwn ni gerllaw bob cam o'r ffordd, hyd nes byddan nhw'n barod i rannu eu profiadau, yn aml am y tro cyntaf. Rydym yn mynd at galon y broblem, yn mynd ati i ddechrau trwsio'r niwed, ac yn eu helpu i gael y gwasanaethau y gwasanaethau sydd eu hangen arnynt.

Ledled y wlad, yn arbennig yn yr ardaloedd tlotaf, rydyn ni'n helpu mwy na 18,000 o blant a phobl ifanc drwy gymaint â 100 o wasanaethau a gaiff eu rhedeg gan bron i 900 o staff a thros 9,000 o wirfoddolwyr. Rydyn ni'n gweithio'n glòs gyda phlant er mwyn sicrhau bod eu lleisiau i'w clywed, ac yn ymgyrchu dros newidiadau yn y gyfraith i atal camgymeriadau'r gorffennol rhag cael eu hailadrodd yn y dyfodol.

Mae gwasanaeth 'Include' Cymdeithas y Plant yn gartref i Fenter Genedlaethol Gofalwyr Ifanc sy'n cynorthwyo plant a phobl ifanc sy'n gofalu am rieni, brawd neu chwaer, sy'n dioddef salwch neu anabledd parhaol. Rydym yn gweithio gyda gwasanaethau gwirfoddol a statudol ledled y wlad i roi cymorth i ofalwyr ifanc. Rydym yn ymgyrchu dros newid ac yn hyrwyddo arferion gorau gyda llywodraeth leol a chenedlaethol. Rydym hefyd yn helpu gofalwyr ifanc drwy roi llwyfan iddyn nhw rannu eu profiadau a chodi ymwybyddiaeth ynglŷn â'r anawsterau maen nhw'n eu hwynebu. Am fwy o wybodaeth ac amryw o ddefnyddiau ac adnoddau, ewch i youngcarer.com neu ffoniwch 01962 711 511.

Rhaglen Gofalwyr Ifanc yn yr Ysgol

Nod rhaglen Gofalwyr Ifanc yn yr Ysgol yw ei gwneud mor hawdd â phosib i ysgolion roi cymorth i ofalwyr ifanc.

Drwy gymryd rhan yn rhaglen Gofalwyr Ifanc yn yr Ysgol, bydd gan ysgolion fynediad i'r canlynol:

- **Y Canllawiau Cam-wrth-gam hyn:** ei gwneud mor hawdd â phosib i ysgolion gynnig cefnogaeth i ofalwyr ifanc.
- **Teclynnau:** gan gynnwys templedi, pro fformas ac enghreifftiau ar gyfer pob cam.
- **Adnoddau ychwanegol:** yn cynnig llyfrgell gynyddol o ddeunyddiau ar-lein i gynorthwyo dysgu, hyfforddiant a chynnydd parthed rhaglen Gofalwyr Ifanc yn yr Ysgol ledled Lloegr a Chymru.

Datblygwyd y Canllawiau Cam-wrth-gam hyn yn wreiddiol fel rhan o raglen Gofalwyr Ifanc yn yr Ysgol yn Lloegr, ac mae'n ddatblygiad ar egwyddorion a theclynnau o adnodd blaenorol (Phelps, D, Leadbitter, H, Manzi, D, 2010). Mae rhai o'r teclynnau sy'n gysylltiedig â'r canllawiau wedi cael eu cymryd neu eu haddasu o'r adnodd hwn.

Cyfranogwch nawr drwy fynd i professionals.carers.org



Chwiliwch am y symbol hwn gydol y Canllawiau Cam-wrth-gam er mwyn canfod sut y gallwch ddefnyddio'r teclynnau a ddarperir i gyrraedd y safonau a osodwyd allan yn yr Adolygiad o'r Man Cychwyn o ran y Pethau Sylfaenol, Tu Hwnt i'r Sylfaenol ac Arfer Gorau.

Mae pob cam yn cynnwys amryw o declynnau, gan gynnwys templedi, pro fformas ac enghreifftiau. Mae'r teclynnau hyn, a restrir isod, ar gael yn professionals.carers.org.

Cam 1: Meithrin dealltwriaeth ynglŷn â gofalwyr ifanc

- Gwybodaeth Allweddol

Cam 2: Adolygu darpariaeth eich ysgol ar gyfer gofalwyr ifanc

- Gwybodaeth Allweddol
- Teclyn 1: Adolygiad o'r Man Cychwyn
- Teclyn 2: Pro fforma ar gyfer gwneud argymhellion i arweinwyr ysgolion
- Teclyn 3: Sut i gasglu barn gofalwyr ifanc am ddarpariaeth eich ysgol
- Teclyn 4: Rhestr wirio ar gyfer casglu data ar bresenoldeb, cyrhaeddiad a chynnydd – ysgolion cynradd
- Teclyn 5: Rhestr wirio ar gyfer casglu data ar bresenoldeb, cyrhaeddiad a chynnydd – ysgolion uwchradd
- Teclyn 6: Arolwg i asesu lefelau dealltwriaeth a hyder staff ysgolion wrth ddiwallu anghenion gofalwyr ifanc

Cam 3: Sicrhau ymrwymiad gan arweinwyr yr ysgol

- Gwybodaeth Allweddol
- Teclyn 1: Rhestr wirio dyletswyddau Arweinydd yr Uwch Dîm Arweinyddiaeth parthed Gofalwyr Ifanc
- Teclyn 2: Enghraifft o lythyr cyflwyno i lywodraethwyr ynglŷn â gofalwyr ifanc
- Teclyn 3: Rôl a chyfrifoldebau corff llywodraethu: sicrhau darpariaeth effeithiol ar gyfer gofalwyr ifanc a'u teuluoedd
- Teclyn 4: Rhestr wirio i helpu cyrff llywodraethu i werthuso effeithiolrwydd darpariaeth eu hysgol ar gyfer gofalwyr ifanc a'u teuluoedd
- Teclyn 5: argedu arian y Grant Datblygu Disgyblion (os yn gymwys) i gynorthwyo gofalwyr ifanc: Enghreifftiau o arfer da

Cam 4: Cyflwyno Arweinydd Gweithredol ar gyfer Gofalwyr Ifanc yn yr Ysgol

- Gwybodaeth Allweddol
- Teclyn 1: Rhestr wirio dyletswyddau Arweinydd Gweithredol ar gyfer Gofalwyr Ifanc yn yr Ysgol

Cam 5: Cydnabod gofalwyr ifanc ym mhrif ddogfennau'r ysgol

- Gwybodaeth Allweddol
- Teclyn 1: Pwyntiau yr argymhellir eu cynnwys yn ymrwymiad yr ysgol gyfan
- Teclyn 2: Rhestr wirio polisi'r ysgol o ran gofalwyr ifanc
- Teclyn 3: Rhestr wirio ar gyfer prif ddogfennau eraill a ddylai gyfeirio at ofalwyr ifanc

Cam 6: Sefydlu systemau i ganfod pwy sy'n ofalwyr ifanc, eu hasesu a rhoi cymorth iddynt

- Gwybodaeth Allweddol
- Teclyn 1: Rhestr wirio o'r cymorth y gall gofalwyr ifanc fod ei angen
- Teclyn 2: Rhedeg grŵp cymorth cyfoedion i ofalwyr ifanc
- Teclyn 3: Enghraifft o daflen y gall disgyblion ei chwblhau a'i phostio mewn blwch negeseuon
- Teclyn 4: Sut mae rhedeg fforwm gofalwyr ifanc
- Teclyn 5: Gweithio gyda nyrsys ysgol i roi cymorth i ofalwyr ifanc a'u teuluoedd
- Teclyn 6: Gweithio mewn partneriaeth â gwasanaethau gofalwyr ifanc
- Teclyn 7: Rhestr wirio ar gyfer gweithio effeithiol mewn partneriaeth rhwng ysgolion a gwasanaethau gofalwyr ifanc
- Teclyn 8: Enghraifft o gytundeb gweithio ar y cyd i'w ddefnyddio gyda gwasanaethau ar gyfer gofalwyr ifanc
- Teclyn 9: Cynorthwyo gofalwyr ifanc i gyfranogi mewn addysg ôl-16
- Teclyn 10: Cynorthwyo gofalwyr ifanc i symud ymlaen i fod yn oedolion
- Teclyn 11: Rhestr wirio o'r cymorth y gall teuluoedd gofalwyr ifanc fod ei angen

Cam 7: Codi ymwybyddiaeth ymhlith staff yr ysgol ynglŷn â gofalwyr ifanc

- Gwybodaeth Allweddol
- Teclyn 1: Rhestr wirio o arwyddion bod disgybl yn ofalwr ifanc
- Teclyn 2: Enghraifft o ddeunydd ar gyfer hysbysfwrdd staff
- Teclyn 3: Sut all staff ysgol gynorthwyo gofalwyr ifanc
- Teclyn 4: Arweiniad i gynnal hyfforddiant staff
- Teclyn 5: PowerPoint i'w ddefnyddio mewn hyfforddiant ar gyfer staff
- Teclyn 6: Taflenni i'w ddefnyddio mewn hyfforddiant ar gyfer staff
- Teclyn 7: Ffurflen werthuso hyfforddiant staff

Cam 8: Codi ymwybyddiaeth ymhlith disgyblion a theuluoedd ynglŷn â gofalwyr ifanc

- Gwybodaeth Allweddol
- Teclyn 1: Enghraifft o ddeunydd hysbysfwrdd ar gyfer ysgolion cynradd
- Teclyn 2: Enghraifft o ddeunydd hysbysfwrdd ar gyfer ysgolion uwchradd
- Teclyn 3: Gweithgareddau a awgrymir ar gyfer gwasanaethau boreol/grwpiau tiwtor
- Teclyn 4: Gweithgareddau a awgrymir ar gyfer gwersi
- Teclyn 5: Enghraifft o lythyr at rieni/warcheidwad
- Teclyn 6: Enghraifft o erthygl ar gyfer cylchlythyr yr ysgol

Cam 9: Canfod, asesu a rhoi cymorth i ofalwyr ifanc a'u teuluoedd

- Gwybodaeth Allweddol
- Teclyn 1: Enghraifft o ffurflen gydsyniad ar gyfer rhannu gwybodaeth
- Teclyn 2: Asesu Amlddimensiynol o Weithgareddau Gofalu
- Teclyn 3: Deilliannau Cadarnhaol a Negyddol Gofalu
- Teclyn 4: Holiadur Llesiant
- Teclyn 5: Rhestr wirio arsylwi staff

Cam 10: Rhannu arfer da ag eraill

- Gwybodaeth Allweddol
- Teclyn 1: Rhannu arferion da - enghreifftiau o astudiaethau achos

Adnoddau ychwanegol

Ar gyfer darllen pellach a chymorth ar gyfer rhaglen Gofalwyr Ifanc yn yr Ysgol.

Cyfeirnodau

- Ymddiriedolaeth y Gofalwyr (2013), *Supporting Young Carers in School: An Introduction for Primary and Secondary School Staff* (Ymddiriedolaeth y Gofalwyr).
- Dearden, C a Becker, S (2004), *Young Carers in the UK: The 2004 Report* (Gofalwyr y DU a Chymdeithas y Plant).
- Estyn (2016), *Guidance for the Inspection of All-age Schools* (Estyn).
- Phelps, D, Leadbitter H, Manzi D (2010), *Supporting Young Carers: A Resource for Schools*, (Ymddiriedolaeth y Dywysoges Frenhinol er Gofalwyr a Chymdeithas y Plant).
- Cymdeithas y Plant (2013), *Hidden from View* (Cymdeithas y Plant).

CAM ①

Cam 1:

Meithrin
dealltwriaeth ynglŷn
â gofalwyr ifanc



Gwybodaeth Allweddol

Mae pobl ifanc sy'n gofalu yn wynebu heriau arbennig sy'n effeithio ar eu gallu i ddysgu.

Er mwyn sicrhau bod darpariaeth eich ysgol yn ateb gofynion gofaluwr ifanc, gan wella eu presenoldeb a'u cyrhaeddiad yn effeithiol, mae'n hanfodol eich bod, fel cam cyntaf, yn datblygu eich gwybodaeth ynglŷn â'r canlynol:

- Pwy sy'n ofalwyr ifanc a beth allai eu rôl ofalu ei olygu.
- Y nifer tebygol o ofalwyr ifanc sydd ym mhob ysgol a pham bod cynifer ohonynt yn gudd.
- Effeithiau posib cyfrifoldebau gofalu ar gyrhaeddiad, presenoldeb a llesiant disgybl.

“ Dyw mam ddim yn gallu cerdded heb gymorth, mae'n gwella ond mae angen help i godi; dim ond hanner ei hymennydd sy'n gweithio, felly mae'n anghofio pethau. Mae pobl yn ei thrin y wahanol achos ei bod hi mewn cadair olwyn ac mae hynny'n fy ngofidio'n arw. ”

Gofalwr ifanc

- Pa ymagwedd sydd angen i ysgolion ei chymryd at ddiwallu anghenion gofaluwr ifanc yn effeithiol (Phelps, D, Leadbitter, H, Manzi, D, 2010).
- Ymagweddau Llywodraeth Cymru ac Estyn at ofalwyr ifanc.
- Hawliau gofaluwr ifanc

Pwy yw gofaluwr ifanc?

Gofalwr ifanc yw rhywun dan 18 oed sy'n darparu neu'n bwriadu darparu gofal i berson arall sy'n sâl, yn anabl, sydd â chyflwr iechyd meddwl, neu'n gaeth i sylweddau.

'Mae llawer o ofalwyr ifanc yn dangos gwahanol arwyddion ac maent angen gwahanol bethau ... mae rhai'n anfodlon cael eu cydnabod am wahanol resymau, megis ofnau ynglŷn â stigma neu y byddant yn cael eu gosod mewn gofal. Weithiau, mae'n anodd canfod pwy sy'n ofalwyr ifanc, weithiau mae mor hawdd â gofyn cwestiwn!'

(Llywodraeth Cymru, 2016b).

“ Dwi wedi bod yn dyst i ofalwyr ifanc yn tyfu o nerth i nerth unwaith y cânt eu canfod a bod cymorth ar gael iddynt. ”

Arweinydd Gweithredol ar gyfer Gofaluwr Ifanc yn yr Ysgol

Pa weithgareddau allai eu rôl ofalu eu cynnwys?

Gall y tasgau a lefel y gofalu a wneir gan ofalwyr ifanc amrywio yn ôl natur y salwch neu'r anabledd, lefel ac amllder yr angen am ofal, a strwythur y teulu yn ei gyfanrwydd.

Mae gofaluwyr ifanc yn aml yn ymgymryd â chyfrifoldebau gofalu ymarferol ac/neu emosiynol y byddai'n arferol i oedolyn ymdopi â nhw. Gall y rhain gynnwys:

- Tasgau ymarferol - coginio, gwaith tŷ a siopa.
- Gofal corfforol – codi rhywun neu eu helpu i ddefnyddio'r grisiau.
- Gofal personol – gwisgo, ymolchi helpu ag anghenion toiled.
- Cymorth emosiynol - gwrando, tawelu, bod yn bresennol.
- Rheoli cyllid y teulu, casglu budd-daliadau a phresgripsiynau.
- Rheoli meddyginiaeth.
- Edrych ar ôl brodyr a chwiorydd ieuengach.
- Helpu rhywun i gyfathrebu.



Mae'n bosib eich bod yn meddwl nad oes llawer o ofalwyr ifanc yn eich ysgol, ond nid yw canfod y disgyblion sydd â chyfrifoldebau gofalu o reidrwydd yn hawdd.

A fydd gofaluwyr ifanc ym mhob ysgol?

Mae'n debygol y bydd amryw o ofalwyr ifanc ym mhob ysgol yng Nghymru.

Nododd Cyfrifiad 2011 fod dros 11,500 o ofalwyr ifanc yng Nghymru, er mai'r gred gyffredin yw bod y gwir ffigur yn llawer uwch na hynny.

Cymru sydd â'r gyfran uchaf o ofalwyr dan 18 oed yn y DU.

Mae'n bosib bod y nifer gwirioneddol o bobl ifanc yng Nghymru sy'n gofalu gryn lawer uwch, efallai cymaint â phedair gwaith yn uwch (BBC, 2010).

Golyga hyn fod gan tua un o bob 12 o ddisgyblion oedran uwchradd gyfrifoldebau gofalu.

Mae 39% o ofalwyr ifanc wedi dweud nad oedd unrhyw un yn eu hysgol yn ymwybodol o'u rôl ofalu (Ymddiriedolaeth y Dywysoges Frenhinol er Gofaluwyr, 2010).

Pam mae cynifer o ofalwyr ifanc yn gudd?

- Nid yw cyflwr yr unigolyn maen nhw'n gofalu amdano'n amlwg, felly nid yw pobl yn meddwl bod y person ifanc angen unrhyw help.
- Nid yw gofaluwyr ifanc yn sylweddoli eu bod nhw'n ofalwr na bod eu bywyd yn wahanol i fywyd eu cyfoedion.

- Dydyn nhw ddim am fod yn wahanol i'w cyfoedion, felly dydyn nhw ddim yn tynnu sylw at eu rôl ofalu.
- Maent yn credu na fydd yr ysgol yn dangos unrhyw ddiddordeb yn eu hamgylchiadau teuluol.
- Maen nhw am gadw eu hunaniaeth yn yr ysgol ar wahân i'w rôl ofalu.
- Nid yw hwn y math o beth maen nhw'n teimlo y gallant ei drafod gyda ffrindiau.
- Ni fu unrhyw gyfle i rannu eu stori.
- Maent yn gofidio ynglŷn â bwlio.
- Maent y poeni y caiff y teulu ei wahanu a bydd rhaid iddyn nhw fynd i gartref gofal.
- Maent am gadw eu cyfrifoldebau gofalu'n gyfrinach a/neu maen nhw'n teimlo embaras.
- Dydyn nhw ddim yn gweld unrhyw reswm dros ddweud eu stori, a dydyn nhw ddim yn credu y bydd unrhyw beth positif yn digwydd yn sgil gwneud hynny.

Pa effaith all cyfrifoldebau gofalu ei gael ar gyrhaeddiad a llesiant disgybl?

Gall gofalu effeithio ar:

- Iechyd corffol person ifanc: Mae gofalwyr ifanc yn aml yn cael eu heffeithio'n ddifrifol gan ofalu drwy'r nos, codi oedolyn trwm dro ar ôl tro, bwyd annigonol a diffyg cwsg.
- Llesiant emosiynol: Mae straen, blinder ac iechyd meddwl gwael yn gyffredin ymysg gofalwyr Ifanc.
- Cymdeithasu: Mae gofalwyr ifanc yn aml yn teimlo'n wahanol neu wedi'u hynysu rhag eu cyfoedion, ac ychydig o gyfleoedd sydd ganddynt ar gyfer cymdeithasu. Dywedodd chwarter gofalwyr ifanc y DU eu bod wedi dioddef bwlio yn yr ysgol oherwydd eu rôl ofalu (Ymddiriedolaeth y Gofalwyr, 2013).
- Amgylchedd sefydlog: Gall gofalwyr ifanc wynebu newidiadau trawmatig yn eu bywydau, megis profedigaeth, teulu'n chwalu, colli incwm a chartref, neu weld effeithiau salwch neu ddibyniaeth ar gyffuriau ar y person y maent yn gofalu amdano.

Yn adroddiad Gofalwyr Ifanc yn y DU (Dearden, C a Becker S, 2004) casglwyd gwybodaeth gan 87 o brosiectau a chyfanswm o 6,178 o ofalwyr ifanc; dyma rai o'r canfyddiadau:

- Mae dwy ran o dair o'r gofalwyr ifanc yn darparu cymorth yn y cartref.
- Mae 48% yn darparu gofal nyrsio a chyffredinol.
- Mae 82% yn darparu cymorth emosiynol a goruchwyliaeth.
- Mae 18% yn darparu gofal personol, ac mae 11% hefyd yn darparu gofal plant.
- Mae'r lefel o gymorth emosiynol sy'n cael ei gydnabod wedi cynyddu'r aruthrol ers 1997.

O'r herwydd, mae cyfrifoldebau gofalu yn cael effaith sylweddol ar addysg disgybl:

- Mae 27% o ofalwyr ifanc o oedran ysgol uwchradd yn cael anawsterau addysgol (Dearden, C a Becker, S, 2004).
- Oni chynigir cymorth iddynt, gall gofalwyr ifanc barhau i'w chael yn anodd yn yr ysgol, ac mae eu cyraeddiadau ar lefel TGAU yn arwyddocaol is - y gwahaniaeth rhwng naw C a naw D (Cymdeithas y Plant, 2013).
- Erbyn iddynt gyrraedd 16 oed, maen nhw'n fwy tebygol na'r cyfartaledd cenedlaethol o beidio bod mewn addysg, cyflogaeth neu hyfforddiant (NEET) rhwng 16 a 19 (Cymdeithas y Plant, 2013).

Nod adroddiad 'Full of Care' (Comisiynydd Plant Cymru a Gwasanaeth Gofalwyr Powys, 2009), oedd dangos y rhwystrau sy'n wynebu gofalwyr ifanc wrth geisio sicrhau'r hawliau a osodir yng Nghonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn, megis yr hawl i addysg, i ymlacio a chwarae, ac i gael eu barn wedi'i pharchu.

Roedd yr adroddiad yn cynnwys nifer o argymhellion i Lywodraeth Cymru, byrddau gwasanaethau lleol, awdurdodau lleol a byrddau iechyd lleol.

“ Mae yma sawl cyfeiriad at ysgolion a cholegau yn yr adroddiad ar ofalwyr ifanc. Trafodir llawer o'r rhain yng nghyd-destun straen. Roedd yn amlwg bod ceisio cael cydbwysedd rhwng eu rôl ofalu a gofynion yr ysgol neu'r coleg yn peri problemau dybryd. Mae gan 62% o'r gofalwyr ifanc yn yr arolwg hwn uchelgais i fynd i'r Brifysgol, eto, dywedodd 63% eu bod ar ei hôl hi yn yr ysgol. ”

(Comisiynydd Plant Cymru a Gwasanaeth Gofalwyr Powys, 2009)



Bydd rhoi cymorth i ofalwyr ifanc nid yn unig yn gwella deilliannau ar gyfer y digybllion hyn, bydd hefyd yn gwella lefelau presenoldeb a chyrhaeddiad eich ysgol.

Pa ymagwedd sydd angen i ysgolion ei chymryd i ateb gofynion gofawyr ifanc yn effeithiol?

Mae'n hanfodol bwysig bod ysgolion yn arddel ymagwedd ysgol gyfan at ganfod pwy sy'n ofalwyr ifanc a rhoi cymorth iddynt, a bod holl staff yr ysgol yn meddu ar yr wybodaeth a'r hyder i ganfod pwy yw'r disgyblion sydd â chyfrifoldebau gofalu a chynnig cefnogaeth iddyn nhw.

Beth yw'r ymagwedd ysgol-gyfan a osodir yn rhaglen Gofalwyr Ifanc yn yr Ysgol?

Mae rhaglen Gofalwyr Ifanc yn yr Ysgol yn annog ysgolion i fabwysiadu ymagwedd ysgol-gyfan at ganfod a rhoi cymorth i ofalwyr ifanc, gan gynnwys:

- Mae gan aelodau penodedig o gorff llywodraethu'r ysgol a'r uwch dîm rheoli gyfrifoldeb dros arwain a hyrwyddo darpariaeth yr ysgol ar gyfer gofawyr ifanc.
- Mae angen arweinydd sy'n adnabyddus i'r gofawr ifanc, fydd yn gyfrifol am reolaeth o ddydd-i-ddydd o'r ddarpariaeth ar gyfer disgyblion sydd â chyfrifoldebau gofalu.
- Caiff delweddu cadarnhaol a gwybodaeth am anabledau, salwch a gofawyr ifanc eu rhannu â disgyblion, staff a theuluoedd.
- Gall yr holl staff weithredu'n rhagweithiol, fel rhan o'u rôl ehangach, i ganfod gofawyr ifanc.
- Mae rhywun yn barod drwy'r amser i wrando ar ofalwyr ifanc, i ymgynghori â nhw ac mae amser a lle ar gael iddyn nhw siarad.
- Mae'r ysgol yn monitro ac yn cadw llygad ar bresenoldeb, cyrhaeddiad, cynnydd a llesiant gofawyr ifanc, fel y gwnânt ar gyfer grwpiau eraill o ddisgyblion difreintiedig.
- Rhoddir cymorth i ofalwyr ifanc o fewn yr ysgol, a chânt eu cyfeirio at adnoddau a gwasanaethau teulu'r tu allan i'r ysgol, er enghraifft gwasanaethau cwnsela annibynnol ar gyfer plant a phobl ifanc.

Pam mae'r ymagwedd ysgol-gyfan a osodir allan yn rhaglen Gofalwyr Ifanc yn yr Ysgol yn hanfodol bwysig i ganfod gofawyr ifanc yn yr ysgol a rhoi cymorth iddyn nhw?

Mae ymagwedd ysgol-gyfan ar gyfer gofawyr ifanc yn hanfodol bwysig oherwydd:

- Un o'r prif resymau sydd gan ofalwyr ifanc dros beidio â gofyn am gymorth yw stigma. Mae ethos ysgol gyfan cadarnhaol, lle caiff gofawyr ifanc a'u teuluoedd eu parchu a'u gwerthfawrogi gan ddisgyblion, staff a chymuned ehangach yr ysgol, yn hanfodol i sicrhau bod gofawyr ifanc a'u teuluoedd yn teimlo'n ddiogel ac yn hyderus wrth geisio cymorth.
- Mae llawer o ofalwyr ifanc yn gudd. Mae angen i holl staff ysgolion wybod sut i adnabod gofawyr ifanc a sicrhau nad ydynt yn cael eu gadael ar ôl.
- Gall disgybl sydd â chyfrifoldebau gofalu wneud ei hun yn adnabyddus i unrhyw aelodau staff maen nhw'n teimlo y gallant siarad â nhw a rhannu eu pryderon.

Beth yw ymagwedd Estyn at ofalwyr ifanc?

Mae cyhoeddiadau Estyn, Canllawiau ar gyfer Arolygu Ysgolion (Estyn, 2016a a 2016b), yn cynnwys gofalwyr ifanc ymysg enghreifftiau o grwpiau bregus. Mae Estyn hefyd wedi nodi bod disgyblion sy'n perthyn i'r categori o ofalwyr ifanc yn fwy tebygol o fod ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY) ac o'r herwydd, maent ynghlwm â dangosyddion ansawdd allweddol Estyn, gan gynnwys 1.1 Safonau, 1.2 Llesiant a 2.3 Gofal, cymorth ac arweiniad.

“ Mae ysgolion mewn sefyllfa dda i roi cymorth i ofalwyr ifanc, a gweithio mewn partneriaeth ag asiantaethau eraill i greu effaith gadarnhaol ar eu bywydau a'u haddysg. Mae'r pecyn cymorth hwn yn darparu adnodd gwerthfawr i helpu canfod a rhoi cymorth i ofalwyr ifanc mewn ysgolion ledled Cymru, ac rwyf yn annog ysgolion i fanteisio arno. ”

Kirsty Williams,
Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg,
Llywodraeth Cymru

'Mae cymorth wedi ei dargedu at grwpiau o ddisgyblion bregus wedi arwain at welliant sylweddol, er enghraifft o ran ymagwedd, ymddygiad, hyder, cyrhaeddiad neu berthynas ag eraill. Mae rhaglenni sefydlu wedi eu teilwra i gwrdd ag anghenion gwahanol grwpiau o ddisgyblion.' (Estyn, 2016b)

Beth yw ymagwedd Llywodraeth Cymru at ofalwyr ifanc?

Daeth Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 i rym yn 2016, a chyflwynwyd hawliau newydd sylweddol i bobl ifanc sy'n gofalu. Mae'r ddeddf yn rhoi'r un hawliau cyfreithiol i ofalwyr â'r rheiny sydd gan y bobl maen nhw'n gofalu amdanynt ac mae'n gosod dyletswydd ar awdurdodau lleol i hyrwyddo llesiant. Mae'n bwysig sylwi bod diffiniad y Ddeddf o lesiant yn cynnwys ffocws ar 'addysg, hyfforddiant a hamdden'.

Hefyd, mae angen i fyrdau iechyd lleol ac awdurdodau lleol ystyried anghenion gofalwyr ifanc pan fyddant yn cwblhau eu hasesiadau statudol o anghenion gofal a chymorth eu poblogaeth.

Mae Llywodraeth Cymru hefyd yn tynnu sylw at yr her sy'n wynebu gofalwyr ifanc yn y Canllawiau ar Gynhwysiant a Chymorth i Ddisgyblion (Llywodraeth Cymru, 2016a). Mae'r canllawiau'n dwyn sylw at y ffaith mai 'ysgolion o bosib yw'r unig le y gall gofalwyr ifanc rannu eu hanawsterau' ac y dylai 'ysgolion weithio gydag awdurdodau lleol i sicrhau eu bod yn gwbl ymwybodol o'r ystod o gymorth sydd ar gael i ofalwyr ifanc'.

Beth yw hawliau gofalwyr ifanc?

Llwyddodd Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014, a ddaeth i rym yn Ebrill 2016, i gryfhau hawliau gofalwyr ifanc yng Nghymru'n sylweddol.

Dan y Ddeddf:

- Mae'n dyletswydd ar awdurdodau lleol i ateb anghenion dilys gofalwr - boed yn oedolion neu'n bobl ifanc sy'n gofalu.
- Mae gan bob gofalwyr ifanc hawl i asesiad, pwy bynnag maen nhw'n gofalu amdanynt, pa fath o ofal maen nhw'n ei ddarparu neu pa mor aml maen nhw'n ei ddarparu.
- Mae gan ofalwr ifanc yr hawl i asesiad ar sail ymddangosiad angen - sy'n golygu nad oes rhaid i ofalwyr ifanc bellach ofyn am asesiad na bod yn ymgymryd â dyletswyddau
- Rhaid i awdurdodau lleol dalu sylw arbennig i anghenion gofalwyr ifanc ac oedolion ifanc sy'n gofalu yn ystod cyfnodau trosglwyddo rhwng yr ysgol ac addysg bellach, addysg uwch neu gyflogaeth.
- Rhaid i awdurdodau lleol rhoi ystyriaeth briodol i Ran 1 o Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (UNCRC) wrth weithio gyda gofalwyr ifanc sydd angen cymorth.

Defnyddiau dilys o'r Grant Datblygu Disgyblion

Mae gofalwyr ifanc sy'n gymwys i dderbyn cinio am ddim (CADd) yn yr ysgol, hefyd yn gymwys i dderbyn cymorth o'r Grant Datblygu Disgyblion. Gan fod anghenion gofalwyr ifanc yn golygu eu bod nhw angen gwahanol fathau o gefnogaeth o gymharu â disgyblion difreintiedig eraill (gweler Cam 6, Teclyn 1: Rhestr wirio o'r cymorth y gall gofalwyr ifanc fod ei angen), mae'n bwysig bod ysgolion yn yn canfod y disgyblion disgyblion hynny sydd â chyfrifoldebau gofalu er mwyn sicrhau bod arian o'r ffynhonnell hon yn cael ei ddefnyddio'n effeithiol.

Er bod rhaid defnyddio'r Grant Datblygu Disgyblion i roi cymorth i'r rheiny sy'n gymwys i gael cinio am ddim a phant yr edrychir ar eu hôl (PEH), nid oes rhaid cyfyngu'r grant i'r dysgwyr hynny. Er mai dim ond dysgwyr sy'n cael CADd a PEH all dderbyn cymorth gan raglenni unigol megis cynllun Dal-i-Fyny, gellir hefyd defnyddio'r grant ar gyfer strategaethau ysgol-gyfan sydd o fudd anghymesur i'r rheiny sy'n cael CADd a PEH. Mae hyn yn cynnwys talu am siaradwyr a hyfforddwyr ar gyfer diwrnodau HMS i drafod cydnabod a lleihau effaith tlodi ar gyrhaeddiad addysgol; diwrnodau cynllunio ar y cyd ar gyfer athrawon a chynorthwywyr dosbarth i roi cymorth i ddisgyblion sy'n cael CADd a PEH; neu ddatblygu systemau tracio priodol i ganfod anghenion arbennig a gwerthuso effaith ymyriadau ar gyfer y grwpiau hyn o ddysgwyr.

Mae defnyddio'r Grant Datblygu Disgyblion i roi cymorth i ddisgyblion cymwys sy'n ofalwyr ifanc yn ffordd effeithiol o wella cyrhaeddiad y grŵp hwn o ddisgyblion, sy'n aml yn cyflawni llai na'u potensial.

Un o'r argymhellion allweddol i Lywodraeth Cymru a wnaed yn adroddiad diweddar Amser i Gael Eich Clywed Cymru (Rees K ac Alexander, C, 2015) oedd cynnwys gofalywr ifanc ac oedolion ifanc sy'n gofalu yn y Grant Datblygu Disgyblion – drwy o leiaf cyfeirio'n benodol at ofalwyr ifanc yn y canllawiau ar gyfer y Grant Datblygu Disgyblion (Llywodraeth Cymru, 2015a a 2015b).

“ Mae profiad ac ymchwil yn dangos bod rhai pobl ifanc yr unig ofalwr sydd gan eu rhiant neu berthynas agos. Gall hyn gostio'n ddrud yn nhermau eu haddysg a'u rhagolygon cyflogaeth; mae gofalywr ifanc yn aml yn byw mewn tlodi; ac yn aml mae hyn wedi'i guddio. ”

Cymdeithas y Plant

Canfu gwaith ansoddol ar gyfer Sefydliad Joseph Rowntree (Gordon, D et al, 2000) ar ofalwyr ifanc, bod profiad o dlodi ac allgau cymdeithasol yn gyffredin. Yn yr Arolwg o Dlodi ac Allgau Cymdeithasol, roedd plant ag o leiaf un rhiant neu aelod o'r teulu â salwch hirdymor tua thraean yn fwy tebygol o fod yn ddifreintiedig o'i gymharu â'r cyfartaledd.

Mae Llywodraeth Cymru'n annog ysgolion i ddefnyddio ymagweddau sy'n seiliedig ar dystiolaeth wrth fynd ati i gynllunio sut i wario'r Grant Datblygu Disgyblion. Mae'r Pecyn Cymorth Gwaddol Addysg sydd ar gael yn www.educationendowmentfoundation.org.uk/resources/teaching-learning-toolkit yn un adnodd o'r fath sydd ar gael i helpu ysgolion i wneud dewisiadau effeithiol rhwng strategaethau, yn seiliedig ar ystod o ymchwil addysgol.

Mae canllawiau Llywodraeth Cymru ar gael yn www.learning.gov.wales/resources/browse-all/pdg-what-really-works/?lang=cy.



Mae'r rhan fwyaf o ofalwyr ifanc yn byw ar gyrion tlodi ac allgau cymdeithasol gyda gwaeledd neu anabledd yn lleihau incwm teuluol a safonau byw.

Cyfeirnodau

- Cynhaliodd y BBC (2010), gyda chymorth Ymddiriedolaeth y Dywysoges Frenhinol, arolwg o 4,029 o ddisgyblion mewn ysgolion uwchradd, a chanfod bod gan 337 gyfrifoldebau gofalu.
- Ymddiriedolaeth y Gofalwyr (2013), *Supporting Young Carers in School: An Introduction for Primary and Secondary School Staff* (Ymddiriedolaeth y Gofalwyr).
- Cyfrifiad 2011. Ffynhonnell: Y Swyddfa Ystadegau Genedlaethol wedi ei thrwyddedu dan Drwydded Llywodraeth Agored v.1.0.
- Comisiynydd Plant Cymru a Gwasanaeth Gofalwyr Powys (2009) *Full of Care: Young Carers in Wales 2009* (Comisiynydd Plant Cymru a Gwasanaeth Gofalwyr Powys).
- Dearden, C a Becker, S (2004), *Young Carers in the UK: The 2004 Report* (Carers UK a Chymdeithas y Plant).
- Estyn (2016a), *Canllawiau ar gyfer Arolygu Ysgolion Cynradd* (o rifyn Medi 2010, diweddarwyd Medi 2016) (Estyn).
- Estyn (2016b), *Canllawiau ar gyfer Arolygu Ysgolion Uwchradd* (o rifyn Medi 2010, diweddarwyd Medi 2016) (Estyn).
- Gordon, D, Adelman, L, Ashworth, K, Bradshaw, J, Levitas, R, Middleton, S, Pantazis, C, Patsios, D, Payne, S, Townsend, P, Williams, J (2000), *Poverty and Social Exclusion in Britain* (Sefydliad Joseph Rowntree).
- Phelps, D, Leadbitter H, Manzi D (2010), *Supporting Young Carers: A Resource for Schools*, (Ymddiriedolaeth y Dywysoges Frenhinol er Gofalwyr a Chymdeithas y Plant).
- Rees, K ac Alexander, C (2015), *Amser i Gael eich Clywed Cymru: Galw am Well Cymorth i Ofalwyr yng Nghymru* (Ymddiriedolaeth y Gofalwyr).
- Cymdeithas y Plant (2013), *Hidden from View* (Cymdeithas y Plant).
- Ymddiriedolaeth y Dywysoges Frenhinol er Gofalwyr (2010), *Supporting Young Carers – A Schools Resource Survey* (Ymddiriedolaeth y Dywysoges Frenhinol er Gofalwyr).
- Llywodraeth Cymru (2015a), *Gwerthusiad o'r Grant Datblygu Disgyblion: 2il Adroddiad Cyfamserol*. Rhif Ymchwil Cymdeithasol: 60/2015 (Llywodraeth Cymru).
- Llywodraeth Cymru (2015b) *Grant Datblygu Disgyblion: Canllawiau Hanfodol* (Llywodraeth Cymru).
- Llywodraeth Cymru (2016a), *Canllawiau Cynhwysiad a Chymorth i Ddisgyblion* (Llywodraeth Cymru).
- Llywodraeth Cymru (2016b), *Pecyn Cymorth Gofalwyr Ifanc* (adnodd ar-lein ar gael yn www.youngcarerstoolkit.co.uk).

CAM ②

Cam 2:

Adolygu darpariaeth
eich ysgol ar gyfer
gofalwyr ifanc



Gwybodaeth Allweddol

Os yw eich ysgol wedi bod yn datblygu systemau ar gyfer canfod a rhoi cymorth i ofalwyr ifanc ers blynyddoedd, neu os yw broses o ddatblygu ei darpariaeth ar gyfer gofalwyr ifanc, y cam cyntaf allweddol at ddefnyddio'r Canllawiau Cam-wrth-gam hyn yw cynnal adolygiad o'r man cychwyn. Drwy adolygu darpariaeth gyfredol eich ysgol ar gyfer gofalwyr ifanc, byddwch yn nodi cryfderau, gwendidau a blaenoriaethau, ac yn cytuno ar beth fydd y camau nesaf.

Pwy ddylai fod yn rhan o'r adolygiad?

Dylid cydlynu'r adolygiad hwn gan aelod o uwch dîm arweinyddiaeth (UDA) yr ysgol neu ddirprwyo'r dasg i aelod staff arall. Gall fod, er enghraifft, yn Gydlynnydd Cynhwysiad yr ysgol, Arweinydd Bugeiliol, Cydlynnydd AAA, Mentor Dysgu neu aelod staff arall â diddordeb arbennig yn y gwaith hwn.

“Pan ges i wybod am ei sefyllfa deuluol, roedd yn hawdd deall pam ei bod hi'n aml yn hwyr ... roedd yn rhyfeddol ei bod hi wedi gwneud mor dda, ond roedd yn deimlad rhwystredig nad oedden ni fel staff yn gwybod o'r blaen.”

Athro

Mae'n bosib y bydd angen i'r aelod staff sy'n arwain yr adolygiad (Arweinydd yr Adolygiad) geisio cyfranogiad staff eraill i sicrhau beth yn union yw'r arfer presennol. Dylent adrodd unrhyw ganfyddiadau allweddol yn ôl i'r UDA a'r corff llywodraethu, gan wneud argymhellion ar gyfer newidiadau angenrheidiol yn arfer yr ysgol gyfan, ynghyd â nodi unrhyw anghenion o ran adnoddau sy'n deillio o hyn sydd angen eu cymeradwyo ar lefel yr UDA a/neu'r corff llywodraethu.

Pa declynnau sydd ar gael i gynorthwyo ysgolion i adolygu'r ddarpariaeth ar gyfer gofalwyr ifanc?

Cam 2, Teclyn 1: Nod yr adolygiad o'r man cychwyn yw cynorthwyo ysgolion drwy wneud y canlynol:

- Gosod y camau allweddol y dylai ysgolion eu cwblhau er mwyn ateb anghenion disgyblion chyfrifoldebau gofalu, gan gynnwys yr hyn mae'n ei olygu'n ymarferol.
- Categorioidio'r gweithredoedd hyn, er mwyn adeiladu ar y pethau sylfaenol ac arfer gorau fel y gallwch flaenoriaethu beth i'w wneud nesaf.
- Darparu lle i'r aelod staff sy'n arwain yr adolygiad i gofnodi a yw pob gweithred wedi'i chwblhau, ar waith, neu heb ei dechrau, yn ogystal â'r hyn mae'r ysgol yn bwriadu ei wneud nesaf.
- Gwneud awgrymiadau ynglŷn â pha aelodau o staff yr ysgol all fod yn y sefyllfa orau i gyflawni pob un o'r gweithredoedd hyn.
- Cyfeirio at declynnau eraill sy'n perthyn i'r Canllawiau Cam-wrth-gam hyn, fydd o gymorth i ysgolion fynd ati i gwblhau'r gweithredoedd hyn.



Bydd casglu a defnyddio barn gofalwyr ifanc er mwyn ffurfio sail i adolygiad eich ysgol yn helpu'r ysgol i gyrraedd Tu hwnt i'r Sylfaenol, Safon 4.

Casglu a defnyddio barn gofalwyr ifanc

Er mwyn deall i ba raddau mae eich darpariaeth yn ateb anghenion y gofalwyr ifanc yn eich ysgol, dylai Arweinydd yr Adolygiad hefyd gynnal sesiwn galw-heibio neu arolwg, ac efallai trefnu fforwm gofalwyr ifanc i gasglu eu barn (gweler Cam 2, Teclyn 3: Sut mae casglu barn gofalwyr ifanc am ddarpariaeth eich ysgol).

Yn arbennig, bydd Arweinydd yr Adolygiad yn ei chael yn ddefnyddiol gofyn y canlynol:

- Ydych chi'n teimlo eich bod chi'n cael yr wybodaeth a'r gefnogaeth rydych chi eu hangen gan yr ysgol fel gofalwyr ifanc?
- Beth mae'r ysgol yn ei wneud yn dda i godi ymwybyddiaeth yn yr ysgol ynglŷn â gofalwyr ifanc?
- Beth hoffech chi weld yr ysgol yn ei wneud i godi ymwybyddiaeth mewn ffordd well?
- Beth mae'r ysgol yn ei wneud yn dda i roi cymorth i ofalwyr ifanc?
- Beth hoffech chi weld yr ysgol yn ei wneud i roi gwell cymorth i ofalwyr ifanc?
- Unrhyw sylwadau eraill.

Mae defnyddio barn gofalwyr ifanc fel sail i adolygiad eich ysgol yn hanfodol bwysig o ran sicrhau bod yr ysgol yn ateb gofynion y grŵp bregus hwn o ddisgyblion. Bydd hefyd yn dangos bod staff yr ysgol yn gosod gwerth ar farn gofalwyr ifanc, gan eich helpu i greu ethos ysgol gyfan lle mae gofalwyr ifanc yn teimlo eu bod yn cael eu parchu, yn teimlo'n ddiogel a hyderus wrth ofyn am gymorth.



Bydd cynnal adolygiad sylfaenol a sicrhau bod cyfleoedd i farn gofalwyr ifanc gael eu clywed yn helpu ysgolion i gyrraedd y Safonau Sylfaenol 1-5.

Cyflawni arfer gorau

Er mwyn cyflawni arfer gorau, dylai Arweinydd yr Adolygiad hefyd wneud y canlynol:

- Edrych yn ofalus ar effaith darpariaeth ar gyrhaeddiad, cynnydd a phresenoldeb disgyblion (gweler Cam 2, Teclyn 4: Rhestr wirio ar gyfer casglu data ar bresenoldeb, cyrhaeddiad a chynnydd - ysgolion cynradd neu Gam 2, Teclyn 5: Rhestr wirio ar gyfer casglu data ar bresenoldeb, cyrhaeddiad a chynnydd - ysgolion uwchradd).
- Asesu effaith darpariaeth ar lesiant disgyblion (gweler Cam 9: Canfod, asesu a rhoi cymorth i ofalwyr ifanc a'u teuluoedd, am enghreifftiau o ddulliau asesu y gallai ysgolion eu defnyddio at y dibenion hyn).
- Adolygu lefelau dealltwriaeth a hyder y staff (gweler Cam 2, Teclyn 6: Arolwg i asesu lefelau dealltwriaeth a hyder staff ysgolion wrth ddiwallu anghenion gofalwyr ifanc).



Bydd gweithredu'r camau ychwanegol hyn yn helpu ysgolion i gyrraedd Arferion Gorau, Safonau 1 a 3.

CAM ③

Cam 3:

Sicrhau ymrwymiad
gan arweinwyr yr
ysgol



Gwybodaeth Allweddol

Er mwyn canfod gofawyr ifanc a chynnig cefnogaeth iddyn nhw yn yr ysgol, mae angen datblygu ymagwedd ysgol-gyfan lle mae gofawyr ifanc yn teimlo'n ddiogel ac yn hyderus wrth geisio cymorth. Mae felly'n hanfodol bwysig fod eich uwch dîm arweinyddiaeth (UDA) a'ch corff llywodraethu'n deall materion sy'n perthyn i ofalwr ifanc a'u bod wedi ymrwymo i ateb eu hanghenion.

Mae'r cam hwn yn allweddol, nid yn unig o ran datblygu'r ddarpariaeth sy'n diwallu anghenion gofawyr ifanc, ond hefyd mewn sicrhau bod yr UDA a'r corff llywodraethu'n meddu ar yr wybodaeth a'r adnoddau maen nhw eu hangen i gyflawni eu dyletswyddau ehangach.



Bydd cyflwyno Arweinydd ar ran yr Uwch Dîm Arweinyddiaeth ar gyfer Gofawyr Ifanc, a sicrhau bod gwybodaeth ar gael i lywodraethwyr ynglŷn â gofawyr ifanc, o gymorth i ysgolion gyrraedd y Lefel Sylfaenol, Safonau 1 a 2.

Mae bod ag Arweinydd wedi'i enwi ar ran y Llywodraethwyr ar gyfer Gofawyr Ifanc, sy'n codi ymwybyddiaeth ac yn sicrhau bod polisïau ac arferion yn cynnwys gofawyr ifanc, yn mynd i helpu ysgolion i gyrraedd Arfer Gorau, Safon 2.

Sut mae canfod gofawyr ifanc a rhoi cymorth iddynt yn ffurfio rhan o rôl a chyfrifoldebau ehangach yr UDA a'r corff llywodraethu?

Mae'r UDA a'r corff llywodraethu'n gyfrifol am sicrhau bod yr ysgol yn darparu amgylchedd dysgu cwbl gydlynol sy'n meithrin cyfleoedd cyfartal ac yn diwallu anghenion amrywiol disgyblion yr ysgol.

I gyflawni'r rôl hon yn effeithiol, dylai'r UDA a'r corff llywodraethu fod yn ymwybodol o'r canlynol:

- Bydd gan lawer o'r disgyblion sy'n mynychu eu hysgol gyfrifoldebau gofalu.
- Mae gofawyr ifanc yn grŵp bregus a difreintiedig y cyfeirir atynt yn benodol yng Nghannllawiau Arolygu Ysgolion Estyn (Estyn, 2016a a 2016b). O'r herwydd, bydd gan y disgyblion hyn anghenion penodol, ac mae angen i'r ysgol ymateb iddynt.



Cofiwch

Mae ymchwil i amgylchiadau dros 1,000 o ofalwyr ifanc yn dangos mai dim ond 36% o ofalwyr ifanc sy'n byw mewn cartref gydag oedolyn sy'n gyflogedig (Dearden C, a Becker, S, 2004). Mae hyn yn dwyn sylw at y nifer sylweddol o ofalwyr ifanc sy'n gymwys i dderbyn cinio am ddim yn yr ysgol, fyddai'n gallu elwa o gymorth wedi'i dargedu drwy'r Grant Datblygu Disgyblion.

Mae gofyn i brifathrawon a chyrff llywodraethu gyhoeddi manylion ar-lein bob blwyddyn ynglŷn â sut maen nhw'n defnyddio'r Grant Datblygu Disgyblion a'r effaith mae'n ei gael ar gyrhaeddiad disgyblion. Bydd yn bwysig iddyn nhw ddangos sut mae'r ysgol yn defnyddio'r cyllid yma i ateb anghenion gofawyr ifanc cymwys.

Pam ddylai ysgolion fod ag Arweinydd yr Uwch Dîm Arweinyddiaeth ar gyfer Gofalwyr Ifanc ac Arweinydd y Llywodraethwyr ar gyfer Gofalwyr Ifanc?

Mae'n allweddol bod datblygiad a gweithrediad darpariaeth yr ysgol ar gyfer gofalwyr ifanc yn cael ei arwain ar lefel yr UDA a'r corff llywodraethu fel bod:

- Anghenion gofalwyr ifanc yn cael eu hadlewyrchu yng nghynlluniau'r ysgol gyfan a, lle bo hynny'n briodol, y cynllun gwella ar gyfer yr ysgol gyfan.
- Bod gan yr ysgol amgylchedd cynhwysol lle gall gofalwyr ifanc a'u teuluoedd deimlo'n gyfforddus ac yn ddiogel i ddweud wrth staff ynglŷn â'u rôl ofalu a chael cymorth (mae stigma'n aml yn rheswm pam bod gofalwyr ifanc yn cadw'n dawel ynglŷn â'u rôl ofalu).
- Mae amser yn cael ei bennu ar yr amserlen ar gyfer hyfforddiant staff a chynllunio'r cwricwlwm.
- Gellir gwneud y defnydd gorau o adnoddau'r ysgol, megis y Grant Datblygu Disgyblion, er mwyn gwella cyrhaeddiad dysgwyr difreintiedig, gan gynnwys gofalwyr ifanc.
- Mae holl staff yr ysgol yn gwybod sut i adnabod gofalwyr ifanc, er enghraifft gall Swyddog Presenoldeb yr Ysgol ganfod gofalwyr ifanc o bosib wrth drafod materion presenoldeb â disgyblion, gall staff y swyddfa adnabod gofalwr ifanc wrth gofrestru disgybl yn hwyr, a gall athrawon sylwi ar arwyddion sy'n

awgrymu bod disgybl yn ofalwr ifanc (gweler Cam 7: Codi ymwybyddiaeth ymhlith staff yr ysgol ynglŷn â gofalwyr ifanc).

“ Unwaith y byddant wedi cael eu canfod, daw gofalwyr ifanc yn fwy hyderus i estyn allan am gymorth. Yn sgil hyn, mae presenoldeb wedi cynyddu, felly hefyd eu graddau yn yr ysgol. ”

Arweinydd Gweithredol ar gyfer Gofalwyr Ifanc yn yr Ysgol

- Mae'r holl staff yn gwybod beth i'w wneud o fewn eu hymarfer o ddydd i ddydd i roi cymorth i ddisgyblion sydd â chyfrifoldebau gofalu, er enghraifft, cael staff y swyddfa i drosglwyddo negeseuon gan aelod o'r teulu, pan fo hynny'n briodol, a bod staff dysgu'n hyblyg er enghraifft, o ran trafod dyddiadau ar gyfer cyflwyno gwaith cartref (gweler Cam 6, Teclyn 1: Rhestr wirio o'r cymorth y gall gofalwyr ifanc fod ei angen).

- Mae protocol priodol ar gyfer rannu gwybodaeth rhwng staff, fel nad oes rhaid i'r gofalwr ifanc ailadrodd ei stori.

- Caiff cysylltiadau eu creu gyda pholisi'r ysgol yn ehangach, er mwyn sicrhau ei fod wedi'i alinio ag ymagwedd yr ysgol at gwrdd ag anghenion gofalwyr ifanc a'u teuluoedd (gweler Cam 5, Teclyn 3: Rhestr wirio ar gyfer prif ddogfennau eraill a ddylai gyfeirio at ofalwyr ifanc).

Mae gwahanol declynnau ar gael ynghyd â'r cam hwn i'ch cynorthwyo i godi ymwybyddiaeth a sicrhau ymrwymiad eich corff llywodraethu a'r UDA:

- Teclyn 1: Rhestr wirio dyletswyddau Arweinydd yr Uwch Dîm Arweinyddiaeth parthed Gofalwyr Ifanc.
- Teclyn 2: Enghraifft o lythyr cyflwyno i lywodraethwyr ynglŷn â gofalwyr ifanc.
- Teclyn 3: Rôl a chyfrifoldebau corff llywodraethu: sicrhau darpariaeth effeithiol ar gyfer gofalwyr ifanc a'u teuluoedd.
- Teclyn 4: Rhestr wirio i helpu cyrff llywodraethu i werthuso effeithiolrwydd darpariaeth eu hysgol ar gyfer gofalwyr ifanc a'u teuluoedd.
- Teclyn 5: Sicrhau bod cymorth ar ffurf y Grant Datblygu Disgyblion y cael ei dargedu at ofalwyr ifanc fel sy'n briodol: Enghreifftiau o arfer da.

Bydd hefyd angen i chi sicrhau bod yr UDA a'r corff llywodraethu'n gyfarwydd â'r wybodaeth ynglŷn â materion gofalwyr ifanc a ddisgrifir yng Ngham 1: Meithrin dealltwriaeth ynglŷn â gofalwyr ifanc.

Efallai y bydd yr UDA hefyd am edrych ar Gam 4: Cyflwyno Arweinydd Gweithredol ar gyfer Gofalwyr Ifanc yn yr Ysgol. Mae Cam 4 yn darparu gwybodaeth bellach am ddynodi aelod staff sy'n gyfrifol am reoli darpariaeth yr ysgol ar gyfer gofalwyr ifanc a'u teuluoedd o ddydd i ddydd. Gan ddibynnu ar ei maint a'r strwythur sefydliadol, efallai y bydd yr ysgol am ymgorffori'r rôl hon ar lefel yr uwch arweinyddiaeth.

Cyfeirnodau

- Cynhaliodd y The BBC (2010), gyda chymorth Ymddiriedolaeth y Dywysoges Frenhinol, arolwg o 4,029 o ddisgyblion mewn ysgolion uwchradd, a chanfod bod gan 337 gyfrifoldebau gofalu.
- Dearden, C a Becker, S (2004), *Young Carers in the UK: The 2004 Report* (Carers UK a Chymdeithas y Plant)
- Estyn (2016a), *Canllawiau ar gyfer Arolygu Ysgolion Cynradd* (o rifyn Medi 2010, diweddarwyd Medi 2016) (Estyn).
- Estyn (2016a), *Canllawiau ar gyfer Arolygu Ysgolion Uwchradd* (o rifyn Medi 2010, diweddarwyd Medi 2016) (Estyn).

CAM ④

Cam 4:

Cyflwyno arweinydd gweithredol ar gyfer gofalwyr ifanc yn yr ysgol.



Gwybodaeth Allweddol

Er mwyn sicrhau bod darpariaeth yr ysgol ar gyfer gofalwyr ifanc yn cael ei rheoli'n effeithiol, mae'n hanfodol bod uwch dîm arweinyddiaeth (UDA) pob ysgol yn dynodi aelod staff fydd â rôl Arweinydd Gweithredol ar gyfer Gofalwyr Ifanc yn yr ysgol. Dylai'r aelod staff hwn fod yn deall materion gofalwyr ifanc a bod yn adnabyddus i ddisgyblion, teuluoedd a staff.

Beth yw rôl Arweinydd Gweithredol yr Ysgol ar gyfer Gofalwyr Ifanc?

Fel rhan o'u rôl ehangach o fewn yr ysgol, dylai Arweinydd Gweithredol yr Ysgol ar gyfer Gofalwyr Ifanc wneud y canlynol:

“Dwi'n gorfod codi yn gynt nawr, 5:45, codi mam a mynd â hi i'r toiled a rhoi ei meddyginiaeth iddi. Dwi'n gorfod rhoi bath iddi hefyd.”

Gofalwr ifanc

- Rheoli darpariaeth yr ysgol ar gyfer gofalwyr ifanc a'u teuluoedd o ddydd i ddydd.
- Gweithredu fel y prif gyswllt ar gyfer gofalwyr ifanc a'u teuluoedd yn yr ysgol.
- Cyngori a chynorthwyo staff yr ysgol ynglŷn â sut i adnabod gofalwyr ifanc a rhoi cymorth iddyn nhw.
- Bod yn bwynt cyswllt ar gyfer asiantaethau allanol, megis nyrs yr ysgol a gwasanaeth lleol ar gyfer gofalwyr ifanc, a hefyd ysgolion sy'n bwydo i mewn, gan hwyluso gwaith rhwng asiantaethau i ateb anghenion gofalwyr ifanc a'u teuluoedd.

Pa aelod staff ddylai ymgymryd â'r rôl hon?

Gan ddibynnu ar faint a strwythur yr ysgol, gall yr UDA benderfynu y dylai rôl Arweinydd Gweithredol yr Ysgol ar gyfer Gofalwyr Ifanc berthyn i waith ehangach UDA yr ysgol, neu y dylid pennu'r cyfrifoldeb hwn i aelod arall o staff. Gall fod, er enghraifft, yn Gydlynnydd Cynhwysiad yr ysgol, Arweinydd Bugeiliol, Cydlynnydd AAA, Mentor Dysgu neu aelod staff arall â diddordeb arbennig yn y gwaith hwn.

Cam 4, Teclyn 1: Mae rhestr wirio dyletswyddau Arweinydd Gweithredol yr Ysgol ar gyfer Gofalwyr Ifanc yn cynorthwyo ysgolion drwy osod yr hyn sydd angen ei wneud ar lefel weithredol er mwyn sicrhau bod gofalwyr ifanc yn yr ysgol yn cael eu canfod a bod cymorth ar gael iddynt.

Wrth feintoli'r swydd, mae'n bosib y bydd eich ysgol am ystyried pennu pwynt Cyfrifoldeb Addysgu Athro ychwanegol ar gyfer y rôl hon. Gan fod rhai gofalwyr ifanc yn gymwys ar gyfer y Grant Datblygu Disgyblion, mae'n bosib y gall ysgolion ystyried defnyddio'r arian yma i'r diben hwn.

Beth yw gweithred allweddol gyntaf Arweinydd Gweithredol yr Ysgol ar gyfer Gofalwyr Ifanc?

Dylai Arweinydd Gweithredol yr Ysgol ar gyfer Gofalwyr Ifanc sicrhau eu bod yn deall materion sy'n effeithio ar ofalwr ifanc (gweler Cam 1: Meithrin dealltwriaeth ynglŷn â gofalwyr ifanc).

Pan fydd y rôl wedi cael ei dirprwyo, mae'n bwysig bod Arweinydd Gweithredol yr Ysgol ar gyfer Gofalwyr Ifanc yn cael cefnogaeth gan Arweinydd Uwch Dîm Arweinyddiaeth yr Ysgol ar gyfer Gofalwyr Ifanc.

Pa gymorth lleol a chenedlaethol arall sydd ar gael i Arweinydd Gweithredol yr Ysgol ar gyfer Gofalwyr Ifanc?

Mae amryw o gymorth ar gael i Arweinydd Gweithredol yr Ysgol ar gyfer Gofalwyr Ifanc, gan gynnwys:

Adnoddau ychwanegol: Ystod o ddefnyddiau hyfforddiant ar-lein i gydredeg â theclynnau sy'n bodoli eisoes (gweler yr adran ar Adnoddau Ychwanegol).

Mudiadau eraill yn y gymuned leol: Mae'r rhain yn cynnwys y gwasanaethau gofalwyr ifanc lleol a gwasanaethau cymorth llesiant emosiynol, sydd hefyd yn gallu darparu cyngor, arweiniad a hyfforddiant.

Gwefannau Defnyddiol: Cewch hyd i wasanaethau gofalwyr lleol drwy wefan Ymddiriedolaeth y Gofalwyr Carers.org neu cysylltwch â'ch awdurdod lleol. Mae pecyn cymorth gofalwyr ifanc www.youngcarerstoolkit.co.uk hefyd yn darparu gwybodaeth ddefnyddiol. Mae'r wefan a gomisiynwyd gan Lywodraeth Cymru, ac a gynhyrchwyd gan *Youth Friendly*, wedi'i hanelu at broffesiynwyr ym meysydd iechyd, addysg a gwasanaethau cymdeithasol, sydd â chyfrifoldeb dros adnabod gofalwyr ifanc ac oedolion ifanc sy'n gofalu, ac sydd mewn cysylltiad â nhw.



Cofiwch

Am fwy o wybodaeth ynglŷn â rôl a chyfrifoldebau arweinwyr ysgolion mewn sicrhau bod darpariaeth effeithiol ar gyfer gofalwyr ifanc, gweler Cam 3: Sicrhau ymrwymiad gan arweinwyr yr ysgol.



Bydd sefydlu Arweinydd Gweithredol yr Ysgol ar gyfer Gofalwyr Ifanc, sy'n adnabyddus i ddisgyblion, teuluoedd a staff, yn helpu eich ysgol i gyrraedd y lefel Sylfaenol, Safon 1.

Cyrchu cymorth allanol, lleol a chenedlaethol, i ddatblygu arfer fydd yn helpu eich ysgol i gyrraedd Arfer Gorau, Safon 5.

CAM ⑤

Cam 5:

Cydnabod gofalwyr
ifanc ym mhrif
ddogfennau'r ysgol



Gwybodaeth Allweddol

Mae'n hanfodol bod ysgolion yn cydnabod gofalwyr ifanc ym mhrif ddogfennau'r ysgol, a bod y rhain yn cael eu cyfathrebu'n rhagweithiol i ddisgyblion, teuluoedd a staff. Bydd gwneud hynny'n helpu i greu ethos ysgol-gyfan lle caiff gofalwyr ifanc a'u teuluoedd eu parchu a'u gwerthfawrogi. Bydd hefyd yn darparu eglurder ynglŷn â rôl a chyfrifoldebau staff yr ysgol parthed gofalwyr ifanc, a'r math o gymorth sydd ar gael i ddisgyblion a'u teuluoedd.

Er mwyn cyflawni'r camau cadarnhaol hyn, bydd angen i ysgolion wneud sawl peth allweddol:

- Datblygu ymagwedd ysgol-gyfan ar gyfer gofalwyr ifanc.
- Datblygu polisi ysgol ar gyfer gofalwyr ifanc.
- Adolygu polisi a dogfennau presennol i adlewyrchu anghenion gofalwyr ifanc.



Cofiwch

Bydd ysgolion ar wahanol gamau o'r daith tuag at roi cymorth effeithiol i ofalwyr ifanc, a dylech fod wedi canfod pa rai o'r gweithredoedd hyn rydych yn bwriadu eu blaenoriaethu wrth fynd ati i adolygu darpariaeth eich ysgol (gweler Cam 2).

Ymrwymiad gan yr ysgol gyfan ar gyfer gofalwyr ifanc a'u teuluoedd

Mae'r rhaglen Gofalwyr Ifanc yn yr Ysgol yn cynorthwyo ysgolion i fabwysiadu ymagwedd ysgol-gyfan at adnabod a rhoi cymorth i ofalwyr ifanc (gweler Cam 1 - Meithrin dealltwriaeth ynglŷn â gofalwyr ifanc).

Dylai pob ysgol fod ag ymagwedd ysgol-gyfan ac ymrwymiad at ofalwyr ifanc a'u teuluoedd sydd:

- Yn ymgorffori'r gwerth mae'r ysgol yn ei osod ar ateb anghenion gofalwyr ifanc.
- Yn crynhoi ymagwedd yr ysgol at roi cymorth i'r grŵp bregus hwn o ddisgyblion.
- Yn adlewyrchu gofynion diogelu, gan gynnwys canllawiau diogelu Llywodraeth Cymru: gov.wales/docs/dcells/publications/150114-keeping-learners-safe.pdf.

Dylai'r ymrwymiad hwn fod yn eglur, yn ennyn diddordeb ac yn gryno, fel y gellir:

- Ei arddangos ar wefan, prosbectws a mewnrwyd yr ysgol, yn ogystal ag ar hysbysfyrdau'r staff a'r disgyblion.
- Cyfeirio ato mewn gwasanaethau boreol, cyfarfodydd llywodraethwyr ac adroddiadau blynyddol.

Pan gaiff ei gyfathrebu'n rhagweithiol yn y ffyrdd hyn, bydd yn:

- Sicrhau bod darpar ddisgyblion a theuluoedd yn ymwybodol o'r ffaith fod yr ysgol yn cydnabod gofynion gofalwyr ifanc ac yn ymateb i'r anghenion hynny.
- Helpu gofalwyr ifanc ac/neu eu teuluoedd i deimlo'n ddiogel a hyderus wrth geisio cymorth.

Bydd yr union wybodaeth y bydd angen i ysgolion ei chyfleu yn yr ymrwymiad yn dibynnu ar lefel ehangach y ddarpariaeth ar gyfer gofalwyr ifanc a wneir gan yr ysgol. Gweler Cam 5, Teclyn 1: Pwyntiau yr argymhellir eu cynnwys yn ymrwymiad yr ysgol gyfan.



Bydd datblygu ymrwymiad ysgol-gyfan yn helpu eich ysgol i gyrraedd y lefel Sylfaenol, Safonau 2-5.

Polisi ysgol ar gyfer gofalwyr ifanc

Er mwyn ateb anghenion gofalwyr ifanc yn fwy effeithiol, dylai ysgolion hefyd fod â pholisi sy'n manylu ar sut bydd yr ysgol yn adnabod ac yn mynd i'r afael ag anghenion gofalwyr ifanc. Gall hyn fod naill ai ar ffurf polisi newydd wedi'i ddatblygu'n benodol ar gyfer gofalwyr ifanc, neu'n adolygiad o bolisi sy'n bodoli eisoes i gynnwys gofalwyr ifanc, megis polisi cynhwysiad yr ysgol.

“Dwi'n ddiolchgar iawn [i fy athrawon cefnogol] am fy helpu i gael lle yn y brifysgol a pharhau â'r freuddwyd oedd gen i ar gyfer fy ngyrfa, yn hytrach na gadael i fy rôl ofalu effeithio ar fy ngobeithion.”

Gofalwr ifanc

Bydd datblygu polisi ysgol, yn ychwanegol i ymrwymiad ysgol-gyfan at ofalwyr ifanc, yn darparu mwy o eglurder ynglŷn â:

- Rôl a chyfrifoldebau staff yr ysgol parthed gofalwyr ifanc.
- Y math o gymorth sydd ar gael i ddisgyblion a'u teuluoedd yn yr ysgol.
- Y ffyrdd mae'r ysgol yn gweithio gyda mudiadau eraill, gan gynnwys gwasanaethau gofalwyr ifanc lleol, nyrs yr ysgol a chymorth llesiant emosiynol, parthed gofalwyr ifanc.

Bydd yr union wybodaeth y bydd angen i ysgolion ei chyfleu yn yr ymrwymiad yn dibynnu ar lefel ehangach y ddarpariaeth ar gyfer gofalwyr ifanc a wneir gan yr ysgol. Cam 5, Teclyn 2: Mae'r rhestr wirio polisi ysgol ar gyfer gofalwyr ifanc yn gosod allan y pwyntiau y dylid eu trafod ym mholisi'r ysgol.



Wrth sefydlu cysylltiadau ag aelodau staff sy'n gyfrifol am ddatblygu ac adolygu dogfennau eraill yr ysgol, bydd angen i Arweinydd Gweithredol yr Ysgol ar gyfer Gofalwyr Ifanc sicrhau eu bod yn deall:

- Bod gan lawer o'r disgyblion sy'n mynychu eu hysgol gyfrifoldebau gofalu, ac o'r herwydd mae ganddyn nhw anghenion penodol, y dylai'r ysgol fod yn gwneud darpariaeth ddigonol ar eu cyfer (gweler Cam 1: Meithrin dealltwriaeth ynglŷn â gofalwyr ifanc).
- Yr hyn sydd angen iddyn nhw ei wneud i gynorthwyo datblygiad a gweithrediad ymagwedd ysgol-gyfan at adnabod a rhoi cymorth i ofalwyr ifanc.

Adolygu polisi presennol

Er mwyn sicrhau ymagwedd gyson at gwrdd ag anghenion y grŵp bregus hwn o ddisgyblion ar draws yr holl ysgol, dylech hefyd sicrhau y caiff anghenion gofalwyr ifanc eu hadlewyrchu yn yr ystod ehangach o bolisiau a dogfennau cyfredol yr ysgol (Gweler Cam 5, Teclyn 3: Rhestr wirio ar gyfer prif ddogfennau eraill a ddylai gyfeirio at ofalwyr ifanc).



Bydd casglu a defnyddio barn gofalwyr ifanc yn helpu ysgolion i gyflawni'r lefel Sylfaenol, Safon 4.

Ymgorffori barn myfyrwyr

Er mwyn ateb anghenion gofalwyr ifanc, dylech gasglu ynghyd a chynnwys barn gofalwyr ifanc wrth ddatblygu ac adolygu eich ymrwymiad fel ysgol gyfan a pholisiau'r ysgol.

CAM ⑥

Cam 6:

Sefydlu systemau i ganfod pwy sy'n ofalwyr ifanc, eu hasesu a rhoi cymorth iddynt



Gwybodaeth Allweddol

Er mwyn sicrhau nad oes unrhyw ofalwyr ifanc yn cael ei anwybyddu, mae angen i ysgolion arddel ymagwedd ragweithiol at ganfod a rhoi cymorth i ofalwr ifanc. Dylai pob ysgol sicrhau bod ganddynt weithdrefnau wedi'u cytuno er mwyn canfod, asesu a rhoi cymorth i ofalwyr ifanc a'u teuluoedd.

Bydd cytuno ar y gweithdrefnau hyn cyn i ysgolion fynd ati'n rhagweithiol i godi ymwybyddiaeth staff, disgyblion a theuluoedd ynglŷn â materion gofalwyr ifanc yn helpu i sicrhau:

- Bod rolau staff parthed gofalwyr ifanc yn eglur.
- Bod prosesau mewn lle i sicrhau bod anghenion gofalwyr ifanc yn cael eu diwallu'n effeithiol unwaith y cânt eu hadnabod.

“ Dwi'n mynd i drwbl yn yr ysgol, mae fy athrawes wastad y pigo arnaf i, dwi wedi siarad â hi ond dydy hi ddim yn gwneud unrhyw beth. Dwi am iddi wrando. ”

Gofalwr ifanc

Beth yw rôl Arweinydd Gweithredol yr Ysgol ar gyfer Gofalwyr Ifanc mewn gweithredu gweithdrefnau'r ysgol ar gyfer gofalwyr ifanc?

Bydd Arweinydd Gweithredol yr Ysgol ar gyfer Gofalwyr Ifanc yn mynd ati i sicrhau bod y gweithdrefnau wedi'u creu a'u gweithredu. I wneud hyn, bydd angen iddynt ennyn diddordeb aelodau staff eraill, gofyn iddynt weithredu a chadw cofnod o gynnydd.

Bydd yr aelodau staff penodol y bydd angen i Arweinydd Gweithredol yr Ysgol ar gyfer Gofalwyr Ifanc weithio gyda nhw'n amrywio yn ôl maint a strwythur yr ysgol, ond er mwyn rhoi syniad i Arweinwyr Gweithredol ynglŷn â phwy all y rhain fod - mae awgrymiadau bras isod er mwyn rhoi arweiniad i chi.

“ Roedd y grŵp cefnogaeth gan gyfoedion yn caniatáu i mi siarad mewn lle diogel heb fod unrhyw un yn chwerthin am fy mhen. ”

Gofalwr ifanc

Pa weithdrefnau ddylai fod mewn lle gan ysgolion?

Dylai Arweinwyr Gweithredol Ysgolion ar gyfer Gofalwyr Ifanc fod wedi nodi pa weithdrefnau maen nhw'n bwriadu eu blaenoriaethu wrth fynd ati i adolygu darpariaeth eu hysgol (gweler Cam 2: Adolygu darpariaeth eich ysgol ar gyfer gofalwyr ifanc).

Y pethau sylfaenol

I grynhoi, os yw eich ysgol ond yn dechrau datblygu ei darpariaeth ar gyfer gofalwyr ifanc, mae'n bosib y byddwch am ganolbwyntio ar y pethau sylfaenol i ddechrau drwy:

- Sicrhau bod amgylchedd cyfrinachol ar gael lle gall gofalwyr ifanc, neu ddisgyblion sy'n meddwl y gallan nhw fod yn ofalwyr ifanc, siarad ag aelod staff.
- Sicrhau bod unrhyw ymyriadau wedi'u targedu, sydd eisoes yn cael eu gweithredu yn yr ysgol, yn hygyrch i ofalwyr ifanc (gweler Cam 6, Teclyn 1: Rhestr wirio o'r cymorth y gall gofalwyr ifanc fod ei angen).
- Sicrhau bod gofalwyr ifanc yn cael eu cyfeirio at ymyriadau wedi'u targedu, nad ydynt yn cael eu darparu gan yr ysgol, er enghraifft gwasanaethau ieuencid, neu gwnsela ar gyfer plant a phobl ifanc.
- Cynorthwyo â gweithredu ymagwedd hyblyg ar draws yr ysgol fel bod gofalwyr ifanc, lle bo hynny'n briodol, yn gallu defnyddio ffôn i alw gartref yn ystod egwyl ac amser cinio er mwyn lleihau unrhyw ofidiau a all fod ganddynt ynglŷn ag aelod o'r teulu. Bydd hyn yn golygu cael hyd i rywle addas lle gall gofalwyr ifanc siarad ar y ffôn.
- Ystyriwch sefydlu grŵp cymorth cyfoedion ar gyfer gofalwyr ifanc (gweler Cam 6, Teclyn 2: Rhedeg grŵp cymorth cyfoedion i ofalwyr ifanc).
- Sicrhau bod cyfnodau cosb weithiau'n cael eu cynnal amser cinio, gan ei bod yn bosib na all gofalwyr ifanc fynychu ar ôl ysgol.
- Ystyriwch osod blwch negeseuon yn yr ysgol, fel y gall disgyblion hunan-ddiffinio. Cofiwch: Mae gofalwyr ifanc yn dweud wrthym ni fod rhaid i ddisgyblion gael sicrwydd y caiff eu preifatrwydd ei sicrhau. Mae angen i flychau negeseuon fod yn ddiogel, fel na all disgyblion eraill gael mynediad i ddeunydd preifat (gweler Cam 6, Teclyn 3: Enghraifft o daflen y gall disgyblion ei chwblhau a'i phostio mewn blwch negeseuon).



Bydd gweithredu'r camau ychwanegol hyn yn helpu ysgolion i gyrraedd y lefel Sylfaenol, Safon 5.

Symud y tu hwnt i'r lefel sylfaenol

Er mwyn datblygu eich systemau ymhellach ac ateb anghenion gofalwyr ifanc yn fwy effeithiol, dylai Arweinydd Gweithredol yr Ysgol ar gyfer Gofalwyr Ifanc:

- Ennyn diddordeb staff sy'n gyfrifol am brosesau cofrestru disgyblion a phroses flynyddol yr ysgol ar gyfer gwirio gwybodaeth disgyblion, er mwyn sicrhau bod y cwestiynau canlynol yn cael eu holi:
 - Oes gan y disgybl rieni neu aelodau eraill o'r teulu sydd â salwch neu anabledd, neu sydd wedi'u heffeithio gan salwch meddwl neu broblemau camddefnyddio alcohol neu sylweddau?
 - Ydych chi am gael mwy o wybodaeth ynglŷn â'r mathau o gymorth mae'r ysgol yn ei ddarparu ar gyfer gofalwyr ifanc?

Cofiwch

Ni fydd pob disgybl sydd â rhieni neu aelodau eraill o'r teulu sy'n anabl, yn sâl neu sydd â phroblemau camddefnyddio alcohol neu sylweddau, yn ofalwr ifanc. Bydd angen i chi gytuno â'r aelodau staff sy'n gyfrifol am gasglu ynghyd yr wybodaeth a ddychwelwyd, eu bod yn eich hysbysu chi mewn achosion lle mae teuluoedd wedi ymateb yn gadarnhaol i'r cwestiynau. Wedyn, dylech gael sgwrs â'r disgyblion sydd dan sylw ac/neu eu teuluoedd er mwyn sefydlu beth yw maint rôl ofalu'r disgybl ac a ydyn nhw angen unrhyw gymorth gan yr ysgol.

- Ennyn diddordeb y staff sy'n gyfrifol am system reolaeth fewnol yr ysgol er mwyn trefnu bod sylw'n cael ei roi i'r rheiny sy'n ofalwyr ifanc, fel y gellir deall lefel presenoldeb, cyrhaeddiad a chynnydd gofalwyr ifanc yn well.
- Sefydlu gweithgor o staff yr ysgol i gynorthwyo gydag anghenion gofalwyr ifanc.
- Dylai Arweinwyr Gweithredol Ysgolion ar gyfer Gofalwyr Ifanc edrych yn fanwl ar weithgorau sy'n bodoli eisoes yn yr ysgol, y gellid eu defnyddio at y diben hwn, er enghraifft grŵp o staff sy'n cwrdd yn rheolaidd i adolygu cynnydd grwpiau bregus o ddisgyblion.
- Gwiriwch unrhyw brotocol sy'n bodoli eisoes ar gyfer rhannu gwybodaeth yn fewnol, a gydag asiantaethau allanol, er mwyn sicrhau nad oes rhaid i'r gofalwr ifanc ailadrodd ei stori sawl tro.
- Ystyriwch sefydlu fforwm gofalwyr ifanc, fel bod gan ofalwyr ifanc gyfleoedd rheolaidd i ddylanwadu a chynorthwyo â datblygu darpariaeth ar gyfer gofalwyr ifanc (gweler Cam 6, Teclyn 4: Sut mae rhedeg fforwm gofalwyr ifanc).
- Sefydlwch gysylltiadau ag asiantaethau allanol, gan gynnwys nyrs yr ysgol (gweler Cam 6, Teclyn 5: Gweithio gyda nyrsys ysgolion i roi cymorth i ofalwyr ifanc a'u teuluoedd (gweler Cam 6, Teclyn 6: Gweithio mewn partneriaeth â gwasanaethau gofalwyr ifanc). Ewch ati i ganfod pa gefnogaeth sydd ar gael i ofalwyr ifanc o fewn yr ysgol a'r tu allan iddi, a pha fanylion dylech chi eu cynnwys ar hysbysfyrddau ac ar wefan yr ysgol i gyfeirio disgyblion a'u teuluoedd yn briodol.



Bydd gweithredu'r camau hyn yn helpu ysgolion i gyrraedd y Tu Hwnt i'r lefel Sylfaenol, Safonau 1 a 5.

Arfer gorau

Er mwyn cyflawni arfer gorau ar gyfer gofalwyr ifanc, dylai eich ysgol hefyd wneud y canlynol:

- Gweithredu ymagwedd gwbl ragweithiol at ganfod gofalwyr ifanc. Bydd hyn yn golygu:
 - Ennyn diddordeb y staff sy'n gyfrifol am fonitro a mynd i'r afael â lefelau presenoldeb gwael, er mwyn sicrhau lle caiff newidiadau mewn tueddiadau eu nodi, bod staff yn ystyried a yw'r rhain yn sgil rôl ofalu o bosib, a'u bod yn gwybod y dylent hysbysu Arweinydd Gweithredol yr Ysgol ar gyfer Gofalwyr Ifanc yn glŷn ag unrhyw bryder.
 - Cytuno y caiff cyfarfodydd cynnydd disgyblion eu defnyddio i nodi newidiadau mewn tueddiadau, gan ystyried a yw'r rhain, o bosib, oherwydd rôl ofalu.
 - Ennyn diddordeb yr uwch aelod staff sydd â chyfrifoldeb dros amddiffyn plant i sicrhau bod rhestrau cyfredol o blant ar y gofrestr amddiffyn a chynlluniau ar gyfer plant y gofalir amdanynt, yn cael eu hadolygu i nodi disgyblion sy'n byw gydag oedolion sydd â phroblemau iechyd meddwl neu sy'n camddefnyddio alcohol neu sylweddau.
 - Gofyn i'r aelod staff sydd â chyfrifoldeb dros ddata cyfrifiad yr ysgol i wirio data ar ddisgyblion ag anabledau ar ddechrau pob blwyddyn ysgol, er mwyn nodi brodyr a chwiorydd sydd yn yr ysgol a all fod â chyfrifoldebau gofalu.
 - Cytuno ag ysgolion sy'n bwydo i mewn / darparwyr blynyddoedd cynnar ar broses ar gyfer sut byddan nhw'n dweud wrthy ch chi os yw disgybl eisoes wedi cael ei nodi fel gofalwr ifanc.
 - Sicrhau cyfranogiad yr aelodau staff sy'n gyfrifol am gofrestru disgyblion newydd, felly pan fydd disgybl yn trosglwyddo i'ch ysgol chi o un arall, bydd staff yn gwirio a oes unrhyw statws gofalwyr ifanc wedi cael ei gofnodi ar y Ffeil Dros glwyddo Gyffredin. Sicrhewch eich bod eich bod yn cynnwys yr wybodaeth hon wrth drosglwyddo disgybl.
 - Sefydlu protocol ar gyfer rhannu gwybodaeth â nyrs yr ysgol, gwasanaethau gofalwyr ifanc a gwasanaethau gofal cymdeithasol, er mwyn sicrhau eu bod nhw, gyda chydysyniad priodol, yn dweud wrthy ch chi pan fyddant yn canfod gofalwyr ifanc sy'n mynychu eich ysgol, neu ar fin dechrau yno.
- Cytuno pa fecanweithiau asesu gaiff eu defnyddio i asesu anghenion disgyblion pan ganfyddir eu bod nhw'n ofalwyr ifanc. Dylid cynnal yr asesiadau hyn gan aelod staff perthnasol o fewn yr ysgol - gan efallai ddefnyddio'r teclynnau asesu a ddarperir fel rhan o Gam 9: Canfod, asesu a rhoi cymorth i ofalwyr ifanc a'u teuluoedd. Gellid

cynnal yr asesiadau gan asiantaethau eraill os ystyrir hynny i fod yn fwy priodol.

- Cytuno ar y defnydd o gynlluniau unigol a/neu fapiau darpariaeth ar gyfer disgyblion i gofnodi sut mae'r ysgol yn bwriadu ateb anghenion y disgybl (ni chaiff enghreifftiau o gynlluniau disgyblion/mapiau darpariaeth eu darparu o fewn y Canllawiau Camwrth-gam, gan y bydd gan ysgolion dempledi ar gyfer cynlluniau disgyblion/map darpariaeth mewn lle eisoes).
- Cytuno ar brosesau ar gyfer gweithio rhwng asiantaethau, gan gynnwys y gwasanaeth gofalwyr ifanc lleol (gweler Cam 6, Teclyn 7: Rhestr wirio ar gyfer gweithio effeithiol mewn partneriaeth rhwng ysgolion a gwasanaethau gofalwyr ifanc). Datblygu cytundebau ffurfiol ar gyfer gweithio ar y cyd, lle bo hynny'n briodol (gweler Cam 6, Teclyn 8: Enghraifft o gytundeb gweithio ar y cyd i'w ddefnyddio gyda gwasanaethau ar gyfer gofalwyr ifanc).
- Sicrhau bod systemau mewn lle, os yw hynny'n briodol, i gynnig cymorth i ofalwyr ifanc sydd am gyfranogi mewn addysg ôl-16 (gweler Cam 6, Teclyn 9: Rhoi cymorth i ofalwyr ifanc gyfranogi mewn addysg ôl-16) a symud ymlaen i fod yn oedolion yn 18 (gweler Cam 6, Teclyn 10: Cynorthwyo gofalwyr ifanc i symud ymlaen i fod yn oedolion). Bydd hyn yn cynnwys gweithio gyda cholegau, darparwyr hyfforddiant a phrifysgolion er mwyn cynllunio a gweithredu cymorth ar gyfer gofalwyr ifanc a'u teuluoedd drwy gyfnodau o newid, a chytuno sut caiff gwybodaeth ei rhannu rhwng arweinydd gweithredol, gyda'r cydsyniad priodol.
- Sicrhau bod yr ysgol a'i chyfathrebu'n hygyrch i deuluoedd gofalwyr ifanc (gweler Cam 6, Teclyn 11: Rhestr wirio o'r cymorth y gall teuluoedd gofalwyr ifanc fod ei angen).
- Sicrhau cyfranogiad staff mewnol, megis y Cydlynnydd AAA, Arweinydd Bugeiliol neu'r Cydlynnydd Cynhwysiad a/neu asiantaethau allanol, gan gynnwys gwasanaeth gofalwyr ifanc lleol, er mwyn canfod sut mae cyfeirio pobl ac/neu ymgymryd â gwaith teulu cyfan sydd â'r nod o roi cymorth i rieni/brodyr/chwiorydd gan atal neu leihau rôl ofalu.



Cofiwch

Gallwch gynnwys statws Gofalwyr Ifanc ar Ffeiliau Trosglwyddo Cyffredin, er nad yw hwn yn eitem ddata orfodol ar y system ar hyn o bryd. O gofio bod Ffeiliau Trosglwyddo Cyffredin yn cael eu creu gan ddefnyddio data sydd eisoes yn cael ei gadw yn systemau Rheoli Gwybodaeth ysgolion, gellir ychwanegu neu newid rhywfaint o'r data fel rhan o'r broses o greu'r ffeil. Bydd dwyn sylw at statws gofalwyr yn helpu â'r broses drosglwyddo, gan sicrhau bod yr ysgol newydd mewn gwell sefyllfa i gwrdd ag anghenion gofalwyr ifanc, ac o'r herydd yn gallu cynnal momentwm eu dysgu.



Bydd gweithredu'r camau hyn yn helpu ysgolion i gyrraedd Arferion Gorau, Safonau 1, 3 a 5.

CAM ⑦

Cam 7:

Codi ymwybyddiaeth
ymhlith staff yr ysgol
ynghlŷn â gofalwyr
ifanc



Gwybodaeth Allweddol

Er mwyn diwallu anghenion gofalwyr ifanc yn eich ysgol, mae'n hanfodol bod holl staff yr ysgol yn:

- Deall pam mae angen cymorth ar ofalwyr ifanc i fwynhau a chael llwyddiant yn yr ysgol.
- Cefnogi ymrwymiad ysgol-gyfan yr ysgol ar gyfer gofalwyr ifanc.
- Deall y pethau syml y gallant eu gwneud i ganfod, rhoi cymorth a chyfeirio gofalwyr ifanc fel rhan o'u rôl ehangach o fewn yr ysgol.



Nid yw gwella dealltwriaeth a chyfrifoldeb dros ateb anghenion gofalwyr ifanc yn golygu creu mwy o ddyletswyddau o fewn rôl bresennol y staff. Yn hytrach, drwy fod yn ymwybodol o sut i ganfod a rhoi cymorth i ofalwyr ifanc, bydd staff yn fwy cymwys i gyflawni eu rôl bresennol o fewn yr ysgol.

Pam dylai ysgolion godi ymwybyddiaeth yr holl staff ynglŷn â'r pwyntiau allwedd hyn?

Mae'n bwysig bod pob aelod staff (os ydynt yn staff dysgu neu beidio) yn deall materion gofalwyr ifanc oherwydd:

- Y bydd gwneud hynny'n helpu i greu ethos ysgol-gyfan, lle caiff gofalwyr ifanc a'u teuluoedd eu parchu a'u gwerthfawrogi, a'u bod yn teimlo'n ddiogel a hyderus i geisio cymorth.
- Mae llawer o ofalwyr ifanc yn gudd (gweler Cam 1: Meithrin dealltwriaeth ynglŷn â gofalwyr ifanc). Er mwyn canfod disgyblion sydd â chyfrifoldebau gofalu'n effeithiol, dylai holl staff ysgolion ddeall beth yw'r arwyddion posib bod disgybl yn ofalwr ifanc, a'r hyn i'w wneud pan fyddant yn canfod plentyn/person ifanc o'r fath (gweler Cam 7, Teclyn 1: Rhestr wirio o arwyddion bod disgybl yn ofalwr ifanc).
- Gall disgybl sydd â chyfrifoldebau gofalu wneud ei hun yn hysbys i unrhyw aelodau staff maen nhw'n teimlo y gallant siarad â nhw a rhannu eu pryderon.
- Mae angen i'r holl staff fod yn ymwybodol o broses yr ysgol ar gyfer rhannu gwybodaeth ynglŷn â gofalwr ifanc. Bydd hyn o gymorth i sicrhau nad yw gwybodaeth ond yn cael ei rhannu gyda'r cydsyniad priodol, a'r nod o sicrhau nad oes angen i ddisgybl ailadrodd ei stori sawl tro.
- Dylai'r holl staff wybod na ddylent drafod rôl ofalu disgybl o flaen eu cyfoedion.
- Gall aelodau staff ategol sydd wedi sefydlu perthynas â'r gymuned leol ddod yn ymwybodol bod disgybl yn ofalwr ifanc drwy sgysiau â'r teulu, a dylai fod yn gallu cyfeirio'r gofalwyr ifanc a/neu'r teulu at gymorth.
- Dylai athrawon a staff ategol sy'n cyflwyno ymyriadau wedi'u targedu megis clybiau gwaith cartref, wybod sut i sicrhau bod yr ymyriadau hyn yn ateb anghenion gofalwyr ifanc, er enghraifft, y dylid rhedeg clybiau gwaith cartref yn ystod yr awr ginio.

- Dylai pob aelod staff fod yn gallu addasu eu harfer i ateb anghenion gofalwyr ifanc wrth ddysgu eu dosbarth.
- Dylai staff y swyddfa wybod pam y gall fod yn bwysig i ddisgyblion gael mynediad i'r ffôn yn ystod amser egwyl a'r awr ginio, er mwyn sicrhau bod aelod o'r teulu'n iawn ac i sicrhau y caiff negeseuon o'r cartref eu trin yn briodol.

“ Mae bod â'r gallu i ofyn i chi eich hun ‘pwy sy'n cael diwrnod gwael?’ ac addasu eich ymddygiad yn unol â hynny'n un o'r pethau pwysicaf y gall athrawon feddu arnynt. ”

Athro

Sut ddylai'r ysgol godi ymwybyddiaeth y staff?

Dylai Arweinwyr Gweithredol Ysgolion ar gyfer Gofalwyr Ifanc flaenoriaethu sut maen nhw'n bwriadu codi ymwybyddiaeth disgyblion a'u teuluoedd wrth adolygu darpariaeth eu hysgol (gweler Cam 2: Adolygu darpariaeth eich ysgol ar gyfer gofalwyr ifanc).

Y pethau sylfaenol

I grynhoi, mae'n bosib y bydd ysgolion sy'n dechrau datblygu eu darpariaeth ar gyfer gofalwyr ifanc am godi ymwybyddiaeth drwy ddatblygu a chynnal deunydd ar gyfer gofalwyr ifanc ar hysbysfwrdd y staff a'r fewnwyd a/neu'r gyriant ar y cyd.

Dylai'r deunydd hwn gynnwys:

- Enw a gwybodaeth gyswllt Arweinydd Gweithredol yr Ysgol ar gyfer Gofalwyr Ifanc.
- Ymrwymiad yr ysgol gyfan at ofalwyr ifanc (gweler Cam 5, Teclyn 1: Pwyntiau yr argymhellir eu cynnwys yn ymrwymiad yr ysgol gyfan).
- Gwybodaeth ar gyfer codi ymwybyddiaeth ynglŷn â phwy yw gofalwyr ifanc, y tebygolrwydd y bydd llawer o ofalwyr ifanc yn yr ysgol, effaith gofalu ar bobl ifanc a'r mathau o gymorth sydd ar gael iddynt.
- Rhestr wirio o arwyddion posib y gall disgybl fod yn ofalwr ifanc a'r hyn i'w wneud os bydd staff yn gwybod bod disgybl yn ofalwr ifanc, neu y gallai fod yn un, a/neu fod disgybl yn dweud wrthynt fod ganddynt rôl ofalu (Cam 7, Teclyn 1: Rhestr wirio o arwyddion bod disgybl yn ofalwr ifanc).

Er mwyn sicrhau ymrwymiad rhagweithiol gan staff, dylai'r Uwch Dîm Arweinyddiaeth gymeradwyo'r deunydd hwn.

Gweler Cam 7, Teclyn 2: Enghraifft o ddeunydd ar gyfer hysbysfwrdd staff.



Bydd gweithredu'r camau hyn yn helpu ysgolion i gyrraedd y lefel Sylfaenol, Safonau 2 a 3.

Adeiladu ar y pethau sylfaenol

Er mwyn ateb anghenion gofawyr ifanc yn fwy effeithiol, dylai ysgolion hefyd sicrhau bod hyfforddiant ar faterion sy'n effeithio ar ofalwyr ifanc:

- Yn cael ei gynnwys ym mhrosesau sefydlu staff.
- Yn rhan gyson o ddatblygiad proffesiynol parhaus ar gyfer staff, er enghraifft fel rhan o ddiwrnod HMS, cyfarfodydd staff neu sesiynau noswyl.

Dylai hyfforddiant staff ymdrin â'r canlynol:

- Pwy sy'n ofalwyr ifanc a beth allai eu rôl gofalu ei olygu.
- Y nifer tebygol o ofalwyr ifanc sydd yn yr ysgol a pham bod cynifer ohonynt yn aml yn gudd.
- Yr heriau arbennig mae gofawyr ifanc yn aml yn eu hwynebu, sy'n effeithio ar eu gallu i fwynhau bod yn yr ysgol a llwyddo yno.
- Ffyrdd y gall staff roi cymorth i ofalwyr ifanc fel rhan o'u rôl ehangach yn yr ysgol (gweler Cam 7, Teclyn 3: Sut all staff ysgol gynorthwyo gofawyr ifanc).
- Yr arwyddion posib y gall disgybl fod yn ofalwr ifanc.
- Pa gefnogaeth sydd ar gael o fewn yr ysgol a'r tu hwnt iddi.

Er mwyn sicrhau bod hyfforddiant yn gwella dealltwriaeth a hyder staff yr ysgol o ran ateb anghenion gofawyr ifanc, mae'n bwysig bod Arweinydd Gweithredol yr Ysgol ar gyfer Gofawyr Ifanc yn gwerthuso effaith hyfforddiant yn eu hysgol.



Bydd gweithredu'r camau hyn yn helpu ysgolion i gyrraedd y Tu Hwnt i'r lefel Sylfaenol, Safonau 3 a 4.

Arfer gorau

Er mwyn sicrhau arfer gorau ar gyfer gofawyr ifanc, dylai staff hefyd gael hyfforddiant penodol ar gyfer canfod pobl ifanc a effeithir gan salwch wedi'i stigmatiddio (megis salwch meddwl eu rhieni, rhieni sy'n camdrin sylweddau a HIV).

Mae'n bosib y bydd byrddau diogelu plant o fewn awdurdodau lleol yn cynnal hyfforddiant penodol o'r math hwn, y gallai fod ar gael i staff addysgu.



Bydd cynnwys hyfforddiant penodol ar gyfer athrawon i ganfod pobl ifanc a effeithir gan salwch wedi'i stigmatiddio yn helpu ysgolion i gyflawni Arfer Gorau, Safon 3.

Pa declynnau gaiff eu darparu i helpu ysgolion i gynnal hyfforddiant?

Mae'r adnoddau hyfforddiant sydd ar gael ynghyd â'r Canllawiau Cam-wrth-gam hyn yn cynnwys:

- Cam 7, Teclyn 4: Arweiniad i gynnal hyfforddiant staff.
- Cam 7, Teclyn 5: PowerPoint i'w ddefnyddio mewn hyfforddiant ar gyfer staff.
- Cam 7, Teclyn 6: Taflenni i'w ddefnyddio mewn hyfforddiant ar gyfer staff.
- Cam 7, Teclyn 7: Ffurflen werthuso hyfforddiant staff.

Diben y teclynnau hyn yw rhoi cymorth i Arweinydd Gweithredol yr Ysgol ar gyfer Gofalwyr Ifanc i gynnal hyfforddiant yn eu hysgol. Hefyd, mae'n bosib y gall gwasanaethau lleol ar gyfer gofalwyr ifanc fod yn gallu darparu cymorth ar gyfer hyfforddi staff, neu gyflwyno'r hyfforddiant eu hunain. Efallai bod eich ysgol am ystyried gwahodd proffesiynwyr eraill sy'n gweithio yn eich ysgol i ymuno â sesiynau hyfforddi, a hyd yn oed rhannu'r hyfforddiant ag ysgolion eraill o fewn yr un clwstr. Mae deunyddiau hyfforddiant ac awgrymiadau pellach ar gyfer cyrchu cymorth allanol hefyd ar gael yn yr adran ar Adnoddau Ychwanegol.

Ystyriwch oedolion sy'n gofalu ymysg eich grŵp staff

Yn ystod sesiynau hyfforddi, mae'n bosib y bydd staff yn diffinio eu hunain fel gofalwyr, gan ddwyn sylw at eu hanghenion cymorth eu hunain. Byddai'n ddefnyddiol pe bai gwybodaeth ar gael i oedolion sy'n ofalwyr, er enghraifft ar wefan Ymddiriedolaeth y Gofalwyr, Carers.org, a gwybodaeth leol am gymorth i oedolion sy'n gofalu.

CAM ⑧

Cam 8:

Codi ymwybyddiaeth ymhlith disgyblion a theuluoedd ynglŷn â gofalwyr ifanc



Gwybodaeth Allweddol

Er mwyn mynd i'r afael â'r rhesymau pam mae cymaint o ofalwyr ifanc yn gudd (gweler Cam 1: Meithrin dealltwriaeth ynglŷn â gofalwyr ifanc), bydd angen i ysgolion fynd ati'n rhagweithiol i godi ymwybyddiaeth disgyblion â'u teuluoedd ynglŷn â:

- Yr hyn mae'n ei olygu i fod yn ofalwr ifanc.
- Anabledau, salwch meddwl a chorfforol, a phroblemau camddefnyddio alcohol a sylweddau, gyda ffocws ar chwalu stereoteipiau cyffredin.

Gall codi ymwybyddiaeth yn y meysydd hyn helpu disgyblion i gydnabod eu bod yn ofalwyr ifanc, ac i'w teuluoedd ddod yn ymwybodol o'r rôl mae'r disgybl yn ymgymryd â hi o fewn y teulu. Gall greu mwy o'r canlynol:

- Cydymdeimlad tuag at ddisgyblion â chyfrifoldebau gofalu.
- Dealltwriaeth ynglŷn â pham eu bod nhw weithiau'n ymddangos yn anghymdeithasol, dan straen, yn bryderus neu'n ddig.
- Ymwybyddiaeth o'r cyfrifoldebau cymhleth sydd gan ofalwyr ifanc, a pham bod hyn yn golygu na allant fynychu clybiau neu pam bod rhaid iddynt frysio adref ar ôl ysgol.

Nid yn unig fydd hyn o gymorth i ddi-ddymu'r stigma sy'n gysylltiedig â rhai anabledau a salwch penodol, a'r camddefnydd o alcohol a sylweddau, bydd hefyd yn helpu gofalwyr ifanc i siarad am eu rolau gofalu'n fwy hyderus â'u cyfoedion. Bydd hyn yn helpu i godi ymwybyddiaeth ynglŷn beth mae bod yn ofalwr ifanc yn ei olygu, a gall helpu i atal bwlio.

Er mwyn annog gofalwyr ifanc i gael gafael ar gymorth priodol, mae hefyd yn bwysig bod ysgolion yn creu amgylchedd dysgu diogel ar gyfer gofalwyr ifanc a theuluoedd, ynghyd â chodi ymwybyddiaeth disgyblion a theuluoedd ynglŷn â'r canlynol:

- Y mathau o gymorth fydd yr ysgol yn ei ddarparu ar gyfer gofalwyr ifanc, gan ddibynnu ar eu hanghenion, a sut i gyrchu hyn.
- Y mathau o gymorth y gall mudiadau eraill yn y gymuned leol eu darparu ar gyfer gofalwyr ifanc a'u teuluoedd.

Cofiwch

Po gynted caiff gofalwr ifanc ei ganfod, lleiaf tebygol yw hi y caiff rôl ofalu amhriodol ei sefydlu, gan greu effaith negyddol. Ni ddylai rôl ofalu fyth effeithio ar addysg, llesiant na photensial plentyn na pherson ifanc.

“Dwi wrth fy modd yn dysgu am ofalwyr ifanc a'u bywydau, a dwi am ddysgu llawer mwy, rhag ofn y bydd hyn yn digwydd i mi ryw dro.”

Disgybl

“Roeddwn i'n arfer helpu yn yr ystafell ddosbarth o bryd i'w gilydd ac roedd hyn yn cael ei ystyried yn brofiad cadarnhaol i blant nad oeddent erioed wedi gweld defnyddiwr cadair-olwyn o'r blaen. Roedd yr ysgol hefyd weithiau'n gwahodd siaradwyr anabl i siarad â'r plant.”

Rhiant

Ffyrdd o godi ymwybyddiaeth disgyblion a'u teuluoedd

Dylai Arweinwyr Gweithredol Ysgolion ar gyfer Gofalwyr Ifanc flaenoriaethu sut maen nhw'n bwriadu codi ymwybyddiaeth disgyblion a'u teuluoedd wrth adolygu darpariaeth eu hysgol (gweler Cam 2: Adolygu darpariaeth eich ysgol ar gyfer gofalwyr ifanc).

Y pethau sylfaenol

I grynhoi, os yw eich ysgol ond yn dechrau datblygu ei darpariaeth ar gyfer gofalwyr ifanc, mae'n bosib y byddwch am ganolbwyntio ar y pethau sylfaenol i ddechrau a chodi ymwybyddiaeth drwy:

- Hysbysfyrddau disgyblion a gwefan yr ysgol.

Dylai Arweinydd Gweithredol yr Ysgol ar gyfer Gofalwyr Ifanc ddatblygu a chynnal deunydd ynglŷn â gofalwyr ifanc ar hysbysfwrdd y disgyblion a gwefan yr ysgol. Dylai'r deunydd hwn gynnwys y canlynol:

- Enw a gwybodaeth cysylltu ar gyfer Arweinydd Gweithredol yr Ysgol ar gyfer Gofalwyr Ifanc.
- Ymrwymiad yr ysgol gyfan at ofalwyr ifanc.
- Gwybodaeth ar gyfer codi ymwybyddiaeth ynglŷn â phwy yw gofalwyr ifanc, y tebygolrwydd y bydd llawer o ofalwyr ifanc yn yr ysgol, effaith gofalu ar bobl ifanc a/neu blant, a'r mathau o gymorth sydd ar gael i ofalwyr ifanc.

Gweler Cam 8, Teclyn 1: Enghreifftiau rhagorol o ddeunydd ar gyfer ysgolion cynradd a Cham 8, Teclyn 2: Enghraifft o ddeunydd hysbysfwrdd ar gyfer ysgolion uwchradd. Bydd angen diweddarau'r hysbysfwrdd hwn yn rheolaidd er mwyn cynnal diddordeb disgyblion. Beth am ofyn i'r gofalwyr ifanc sy'n hysbys i chi i helpu â chynhyrchu deunydd newydd ar gyfer ei arddangos?



Bydd gweithredu'r camau ychwanegol hyn yn helpu ysgolion i gyrraedd y lefel Sylfaenol, Safon 2.

Adeiladu ar y pethau sylfaenol

Mewn ysgolion sy'n awyddus i ddatblygu eu darpariaeth ar gyfer gofalwyr ifanc ymhellach, dylai Arweinydd Gweithredol yr Ysgol ar gyfer Gofalwyr Ifanc wneud y canlynol:

- Sicrhau bod hysbysfyrddau'r disgyblion a/neu wefan yr ysgol hefyd yn cynnwys gwybodaeth sy'n cyfeirio gofalwyr ifanc at adnoddau eraill, er enghraifft, manylion ynglŷn â gwasanaeth gofalwyr ifanc lleol, nyrs yr ysgol a chymorth emosiynol wedi'i ddarparu o fewn yr ysgol a'r tu allan iddi.

- Cyflwyno gwasanaethau boreol rheolaidd i godi ymwybyddiaeth ynglŷn â materion sy'n berthnasol i ofalwyr ifanc sy'n cynnwys negeseuon am anabledd/salwch (gan gynnwys salwch meddwl, camddefnyddio alcohol a sylweddau, a HIV). Gweler Cam 8, Teclyn 3: Gweithgareddau a awgrymir ar gyfer gwasanaethau boreol / grwpiau tiwtor. Mae hefyd yn bosib y bydd Arweinydd Gweithredol yr Ysgol ar gyfer Gofalwyr Ifanc am wahodd gwasanaethau lleol perthnasol i wneud cyflwyniadau ar destunau megis salwch meddwl.
- Mae gwaith gyda chydweithwyr perthnasol i sicrhau bod agweddau cysylltiedig o'r cwricwlwm, megis ABCh, yn cynnwys dysgu sy'n rhoi sylw i rolau a chyfrifoldebau gofalwyr ifanc, yn hyrwyddo delweddau cadarnhaol o anabledd ac yn herio stereoteipiau (gweler Cam 8, Teclyn 4: Gweithgareddau a awgrymir ar gyfer gwersi).
- Mae'n bwysig cyfathrebu'n rheolaidd â theuluoedd er mwyn eu darparu â gwybodaeth ynglŷn â materion sy'n ymwneud â gofalwyr ifanc, y gefnogaeth sydd ar gael a sut mae cysylltu ag Arweinydd Gweithredol yr Ysgol ar gyfer Gofalwyr Ifanc.

Dyma rai o'r sianeli cyfathrebu y gellir eu defnyddio gyda theuluoedd:

- Llythyron/e-byst uniongyrchol i gydredeg â gwasanaethau boreol ar gyfer gofalwyr ifanc neu ddysgu ABCh (gweler Cam 8, Teclyn 5: Enghraifft o lythyr at rieni/gwarcheidwad).
- Erthyglau yng nghylchlythyr yr ysgol (gweler Cam 8, Teclyn 6: Enghraifft o erthygl ar gyfer cylchlythyr yr ysgol)
- Cynnwys ymrwymiad ysgol-gyfan yr ysgol i ofalwyr ifanc a'u teuluoedd ym mhrosbectws yr ysgol.

Trwy'r mecanweithiau hyn, gall ysgolion gymryd ymagwedd ragweithiol at godi ymwybyddiaeth y disgyblion a'u teuluoedd ynglŷn â materion sy'n perthyn i ofalwyr ifanc. Bydd hyn nid yn unig yn creu ethos ysgol gefnogol, ond hefyd yn helpu i sicrhau nad oes unrhyw ofalwr ifanc yn cael ei adael ar ôl.



Bydd gweithredu'r camau ychwanegol hyn yn helpu ysgolion i gyrraedd y Tu Hwnt i'r lefel Sylfaenol, Safon 2.

CAM 9

Cam 9:

Canfod, asesu a rhoi cymorth i ofalwyr ifanc a'u teuluoedd



Gwybodaeth Allweddol

Bob tro mae'r ysgol yn canfod disgybl sy'n ofalwr ifanc, dylai Arweinydd Gweithredol yr Ysgol ar gyfer Gofalwyr Ifanc sicrhau bod nifer o bethau'n cael eu gwneud i:

- Asesu anghenion y disgybl hwn a'i deulu.
- Sicrhau bod cydsyniad ar gyfer rhannu gwybodaeth.
- Trefnu cyfranogiad staff a phroffesiynwyr eraill i gynllunio a gweithredu cymorth.
- Datblygu a chytuno ar gynlluniau disgyblion / mapiau darpariaeth.
- Darparu cymorth.

“ Heb athrawon cefnogol, fwaswn i ddim wedi gallu parhau â fy ngyrfa academaidd fel y gwnes i ... dwi'n ddiolchgar iawn iddyn nhw. ”

Gofalwr ifanc

- Monitro ac adolygu'r effaith ar y gofalwr ifanc a'i deulu.

Mae'n hanfodol bwysig bod y pethau hyn yn cael eu gwneud er mwyn i'r ysgol asesu anghenion y disgybl a'u diwallu'n effeithiol.

Pa weithredoedd allweddol ddylai ysgolion eu cyflawni er mwyn darparu lefel sylfaenol o wasanaeth ar gyfer gofalwyr ifanc?

Dylai Arweinydd Gweithredol yr Ysgol ar gyfer Gofalwyr Ifanc:

- Sicrhau bod asesiadau'n cael eu cynnal yn brydlon unwaith y caiff disgybl ei adnabod fel gofalwr ifanc, â'r nod o ganfod y mathau o gymorth, ymyriadau a/neu hyblygrwydd sydd eu hangen i ateb eu gofynion. Dylai hyn gynnwys rhoi ystyriaeth i gyrhaeddiad, cynnydd a phresenoldeb y disgybl a siarad â'r gofalwr ifanc a'i deulu ynglŷn â'r mathau o gymorth sydd ar gael. Dylid cynnal asesiadau gan aelod staff perthnasol o fewn yr ysgol neu gan asiantaethau eraill os ystyrir hynny i fod yn fwy priodol. I'ch atgoffa am y math o gymorth y gall gofalwyr ifanc fod ei angen, gweler Cam 6, Teclyn 1: Rhestr wirio o'r cymorth y gall gofalwyr ifanc fod ei angen.
- Sicrhau cydsyniad priodol gan y teulu ar gyfer rhannu gwybodaeth ag aelodau staff eraill a/neu asiantaethau sy'n darparu cefnogaeth berthnasol. Gall ysgolion fod am ddefnyddio ffurflenni rhannu gwybodaeth sydd eisoes yn bodoli at y diben hwn a/neu ddefnyddio Cam 9, Teclyn 1: Enghraifft o ffurflen gydsyniad ar gyfer rhannu gwybodaeth.
- Sicrhau bod y disgybl yn gwybod sut a phryd y byddant yn gallu cwrdd ag aelod staff er mwyn siarad â nhw ynglŷn â'u rôl ofalu mewn sefyllfa gyfrinachol.
- Trefnu cyfranogiad aelodau staff perthnasol er mwyn sicrhau bod ymyriadau wedi'u targedu'n cael eu trefnu i ateb anghenion y disgybl.
- Sicrhau bod aelodau staff perthnasol ar gael i weithredu'r hyblygrwydd priodol, er enghraifft mynediad i ffonau yn ystod amser egwyl neu'r awr ginio er mwyn lleihau unrhyw ofidiau sydd gan ofalwyr ifanc ynglŷn ag aelod o'r teulu.

- Sicrhau bod staff dysgu perthnasol yn gwybod bod y disgybl yn ofalwr ifanc a sut i ateb eu gofynion o few eu rôl. I'ch atgoffa am sut gall staff dysgu roi cymorth i ofalwyr ifanc allu mwynhau eu hunain yn yr ysgol a llwyddo yno, gweler Cam 7, Teclyn 3: Sut all staff ysgol gynorthwyo gofalwyr ifanc.

Cofiwch

Mae rhai gofalwyr ifanc y dweud nad ydynt am i wybodaeth fod ganddynt rôl ofalu i gael ei rhannu â'u hathrawon a/neu staff eraill yr ysgol. Er mwyn helpu i sicrhau bod gofalwyr ifanc yn teimlo'n gyfforddus i'r wybodaeth hon gael ei rhannu, bydd yn bwysig i Arweinydd Gweithredol yr Ysgol ar gyfer Gofalwyr Ifanc weithredu pob un o'r camau a osodir yn y Canllawiau Cam-wrth-gam hyn. Bydd gwneud hynny'n helpu i greu ethos ysgol-gyfan lle mae gofalwyr ifanc yn teimlo'n ddiogel a bod y staff, y disgyblion a chymuned ehangach yr ysgol y eu parchu.

Tu hwnt i'r lefel sylfaenol

Er mwyn symud y tu hwnt i'r sylfaenol, ac ateb gofynion y gofalwr ifanc yn fwy effeithiol, dylai Arweinydd Gweithredol yr Ysgol ar gyfer Gofalwyr Ifanc hefyd:

- Cyfeirio'r gofalwr ifanc at asiantaethau allanol, sy'n gweithio naill ai'r tu mewn i'r ysgol neu'r tu allan iddi. Er enghraifft, nyrs yr ysgol a gwasanaeth lleol ar gyfer gofalwyr ifanc.

Cofiwch

Gall sefyllfa disgybl a theulu newid yn gyflym, ac o'r herwydd, mae mentora parhaus ffurfiol ac anffurfiol yn bwysig.

Arfer gorau

Er mwyn cyflawni arfer gorau ar gyfer gofalwyr ifanc, dylai Arweinydd Gweithredol yr Ysgol ar gyfer Gofalwyr Ifanc hefyd:

- Sicrhau bod asesiadau'n casglu amryw o dystiolaeth ynglŷn â'r lefel o gyfrifoldebau gofalu sydd gan ofalwyr ifanc, ac effaith gofalu ar eu gallu i fwynhau'r ysgol a llwyddo yno - efallai drwy ddefnyddio Cam 9, Teclyn 2: Aseiad aml-ddimensiwn o weithgareddau gofalu, Cam 9, Teclyn 3: Deilliannau cadarnhaol a negyddol gofalu, neu Gam 9, Teclyn 4: Holiadur llesiant a Cham 9, Teclyn 5: Rhestr wirio ar gyfer staff.
- Canfod a yw'r disgybl mewn peryg o ddisgyn i'r categori o fod 'ddim mewn addysg, cyflogaeth neu hyfforddiant' (NEET) yn 16 oed.
- Gofyn i deulu'r disgybl ynglŷn ag unrhyw rwystrau a all eu hatal rhag cael mynediad i'r ysgol a'i chyfathrebiadau.
- Datblygu cynllun disgybl unigol a/neu fap darpariaeth i gofnodi data ansoddol a mesurolo asesiadau, gosod allan pa ymyriadau, cymorth a/neu hyblygrwydd gaiff eu cynnig i'r disgybl a gosod dyddiad ar gyfer adolygiad ffurfiol.

- Sefydlu arferion gweithio aml-asiantaeth lle bo hynny'n briodol, er enghraifft gyda nyrs yr ysgol, gwasanaethau lleol ar gyfer gofalwyr ifanc, a gofal cymdeithasol - gan ddefnyddio prosesau lleol sy'n bodoli eisoes, megis y Tîm o Amgylch y Plentyn / Teulu, a sicrhau bod proffesiynwr ar gael.
- Gweithredu gweithdrefnau, lle bo hynny'n briodol, i roi cymorth i ofalwyr ifanc i'w galluogi i gyfranogi mewn addysg ôl-16 a/neu symud ymlaen i fod yn oedolion pan fyddant yn 18 oed.
- Lle bo hynny'n briodol, cyfeirio'r teulu am asesiad teulu-cyfan, er mwyn helpu i sicrhau y gall rhieni / brodyr neu chworydd anabl gael y cymorth maent ei angen er mwyn atal neu leihau rôl ofalu'r disgybl (lle mae'r disgybl wedi cael ei ganfod gan ysgol sy'n bwydo i mewn neu asiantaeth arall, gall Arweinydd Gweithredol yr Ysgol ar gyfer Gofalwyr Ifanc fod am wirio a yw'r teulu wedi cael ei gyfeirio eisoes).
- Sicrhau bod cynlluniau disgyblion / mapiau darpariaeth yn cael eu hadolygu'n rheolaidd. Wrth wneud hynny:
 - Dylid defnyddio'r un teclynnau asesu â'r rheiny a ddefnyddiwyd ar gyfer asesiad gwreiddiol y disgybl. Bydd hyn yn eich galluogi i fonitro effeithiolrwydd y ddarpariaeth.
 - Dylid rhoi ystyriaeth i farn staff / asiantaethau eraill sy'n cyflwyno'r ymyriadau wedi'u targedu.
 - Dylid casglu barn y rhieni ynglŷn â llesiant y disgybl ac unrhyw rwystrau i addysg mae'n eu hwynebu, a rhoi ystyriaeth deilwng iddynt.
- Dylai Arweinydd Gweithredol yr Ysgol ar gyfer Gofalwyr Ifanc hefyd sicrhau bod yr ysgol yn adolygu effaith unrhyw beth a wnaed i leihau/ddiddymu rhwystrau a nodwyd gan y teulu wrth geisio cael mynediad i'r ysgol a'i chyfathrebu.



Os yw aelodau staff sy'n darparu cymorth yn bryderus bod sefyllfa'r disgybl wedi newid a / neu eu bod angen cymorth ychwanegol, dylent chwilio am gyfleoedd i atgoffa'r disgybl y gall siarad ag aelod er enghraifft, cael gair â'r disgybl ar ddiwedd gwrs. Wrth wneud hynny, dylai staff barchu preifatrwydd y disgybl a sicrhau nad ydynt yn trafod rôl ofalu'r disgybl o flaen ei gyfoedion. Dylid codi unrhyw bryderon ag Arweinydd Gweithredol yr Ysgol ar gyfer Gofalwyr Ifanc.

CAM ⑩

Cam 10:

Rhannu arfer da
ag eraill



Gwybodaeth Allweddol

Mae'n hanfodol bwysig bod ysgolion sydd wedi mabwysiadu Camau 1 i 9 o'r Canllawiau Cam-wrth-gam hyn, yn rhannu eu harferion da a'r gwersi a ddysgwyd ag ysgolion cysylltiedig, gan gynnwys y rhai eraill yn eu clwstwr.

Trwy wneud hynny, byddant yn sicrhau deilliannau cadarnhaol ar gyfer gofalwyr ifanc sy'n mynychu ysgolion eraill. Byddant hefyd yn ei gwneud yn fwy tebygol bod rôl ofalu disgyblion sy'n cofrestru neu'n trosglwyddo i'w hysgol yn cael eu canfod cyn i'r disgybl gyrraedd. Bydd hyn yn ei gwneud yn haws i ysgolion drefnu cymorth ac ymyriad cynnar.



Cofiwch

Gall canfod gofalwyr ifanc yn gynnar eu hatal rhag ymgymryd â rolau gofalu sy'n eithafol neu'n amhriodol. Sicrhewch nad yw addysg, llesiant na photensial unrhyw blentyn na pherson ifanc yn cael ei effeithio gan eu rôl ofalu, drwy rannu eich arferion da.

Dylai ysgolion chwilio am gyfleoedd i rannu arferion effeithiol drwy:

- Rhannu'r hyn a ddysgwyd ag ysgolion sy'n bwydo i mewn, gan gynnwys ysgolion yn eu clwstwr, drwy gynllunio ar gyfer trosglwyddo, hyfforddiant ar y cyd, anfon gohebiaeth a fforymau gwybodaeth eraill (gweler Cam 10, Teclyn 1: Rhannu arfer da).

Beth yw'r cam nesaf?

Mae datblygu cymorth effeithiol ar gyfer gofalwyr ifanc mewn ysgolion yn broses o welliant parhaus. Dylai ysgolion adolygu effeithiolrwydd eu polisi a'u darpariaeth ar gyfer canfod a rhoi cymorth i ofalwyr ifanc a'u teuluoedd yn flynyddol, â'r nod o wella deilliannau'n barhaus.



Bydd rhannu enghreifftiau o arfer da a chynnig cymorth gyda gwella arferion a pholisi'n helpu ysgolion i gyflawni Arfer Gorau, Safon 2.

Dylid trefnu adolygiadau ar adegau priodol o fewn calendr yr ysgol fel eu bod:

- Yn ffurfio sail i brosesau'r ysgol ar gyfer cynllunio ac adolygu ei defnydd o gyllido ar ffurf y Grant Datblygu Disgyblion.
- Yn sicrhau, lle bo hynny'n briodol, bod gofalwyr ifanc yn cael eu hystyried fel rhan o gynllun datblygiad yr ysgol gyfan.

Am arweiniad a chymorth i helpu ysgolion i adolygu eu darpariaeth, ewch yn ôl i Gam 2: Adolygu darpariaeth eich ysgol ar gyfer gofalwyr ifanc.



Bydd monitro ac adolygu darpariaeth ar gyfer gofalwyr ifanc yn flynyddol yn helpu ysgolion i gyflawni Arfer Gorau, Safon 1.

Adnoddau Ychwanegol

Mae'r adnoddau ychwanegol hyn wedi cael eu datblygu i gynorthwyo elfennau o fewn y canllawiau ac i ddarparu deunydd darllen pellach. Caiff y deunyddiau ychwanegol hyn eu diweddarau'n rheolaidd, wrth i adnoddau newydd sy'n perthyn i ofalwyr ifanc ddod ar gael. Mae'r testunau canlynol wedi'u cynnwys, ond nid ydynt yn gyfyngedig i'r rhain:

- Gwybodaeth gyffredinol ynglŷn â gofalwyr ifanc

Mae'n cynnwys adnoddau a chysylltiadau at ymchwil ac adroddiadau.

- Gwerthusiad o raglen Gofalwyr Ifanc yn yr Ysgol hyd yma ar draws y DU

Mae'n darparu golwg fanwl ar effaith y rhaglen hyd yma, o safbwynt yr ysgol a'r gofalwr ifanc, gan gynnwys y defnydd arloesol o gyllido wedi'i dargedu.

- Cymorth ar-lein ar gyfer oedolion ifanc sy'n gofalu

Mae'n darparu manylion o wefannau sy'n arbennig ar gyfer gofalwyr ifanc.

- Adnoddau sy'n ymwneud ag ymgynghori â gofalwyr ifanc

Mae'n cynnwys deunyddiau ar gyfer hysbysfyrddau a pheccynnau cyfranogi.

- Adnoddau dysgu, gan gynnwys astudiaethau achos gofalwyr ifanc

Deunyddiau dysgu ar gyfer camau allweddol 2 a 3; Deunyddiau ymwybyddiaeth gofalwyr ifanc, megis ffilmiau a syniadau ar gyfer gwersi ABCh.

- Gwybodaeth am ganfod a chynnig cymorth i ofalwyr ifanc a effeithir gan salwch wedi'i stigmatiddio, anabledau neu ddadleoli

Mae'n cynnwys gwybodaeth am ofalwyr ifanc sy'n gofalu am rywun a effeithir gan HIV; camdefnydd sylweddau a/neu alcohol, gwybodaeth am ofalwyr ifanc sy'n ffoaduriaid neu'n geiswyr lloches, a gofalwyr ifanc a effeithir gan fwlio.

- Gweithio gyda nyrsys ysgol

Mae hyn yn cynnwys rhoi cymorth i iechyd a llesiant gofalwyr ifanc mewn ffordd gydlynol, aml-asiantaeth.

- Gwneud y defnydd gorau o gymorth allanol




Ymgysylltiad â gwasanaethau lleol ar gyfer gofalwyr ifanc, gwasanaethau ieuencid, gwasanaethau cwnsela a gwasanaethau lles mewn addysg.



Cadwch lygad ar adran adnoddau ychwanegol ar wefan Gofalwyr Ifanc yn yr Ysgol yn www.youngcarersinschools.com yn rheolaidd am y deunyddiau mwyaf cyfoes. Bydd rhai o'r adnoddau wedi cael eu datblygu ar gyfer eu defnyddio mewn ysgolion yn Lloegr fel rhan o raglen Gofalwyr Ifanc yn yr Ysgol, felly er eu bod yn berthnasol iawn, gall fod rhywfaint o amrywiaeth mewn terminoleg.





Ymddiriedolaeth Gofalwyr Cymru
Trydydd Llawr
33 Heol y Gadeirlan
Caerdydd, CF11 9HB
Ffôn: 0300 772 9600
E-bost: wales@carers.org

Carers.org
professionals.carers.org
 www.facebook.com/CarersTrust
 www.twitter.com/CarersTrust
 www.youtube.com/user/CarersTrust

Mae Ymddiriedolaeth Gofalwyr yn elusen gofrestredig yn Lloegr a Chymru (1145181) ac yn yr Alban (SC042870). Cofrestrwyd fel cwmni cyfyngedig drwy warant yn Lloegr a Chymru rhif 7697170. Swyddfa gofrestredig: 32–36 Stryd Loman, Llundain SE1 0EH.

Cymdeithas y Plant,
Unit 4, Calford House,
Wessex Business Park, Wessex Way
Colden Common SO21 1WP
Ffôn: 01962 711 511. Ffacs: 01962 711 512
E-bost: include@childrenssociety.org.uk

childrenssociety.org.uk
youngcarer.com www.makewav.es/ycif
 www.facebook.com/thechildrenssociety
 www.twitter.com/ChildSocInclude and [childrenssociety](https://www.twitter.com/childrenssociety)

Mae Cymdeithas y Plant yn elusen gofrestredig, rhif 221124. Swyddfa Gofrestredig: Edward Rudolf House, Margery Street, London, WC1X 0J